

Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 22 Chwefror a 1 Mawrth 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cynnwys

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio](#)

[Cwestiynau i'r Trefnydd](#)

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar letygarwch yn 2006? (WAQ49223)

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed ar fusnes y Cynulliad yn 2006, ynghyd â chost pob ymweliad? (WAQ49226)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae'r gwariant ar letygarwch yn ystod blwyddyn galendr 2006 wedi ei nodi yn y tabl isod.

Adran	£'000

Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau	7
Menter, Arloesi a Rhwydweithiau	371
Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad	125
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	38
Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus	6
Diwylliant	34
Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio	11
Arolygiaethau Iechyd(1)	6
Adrannau Corfforaethol (2)	196
Cyfanswm	795

(1) Mae’r arolygiaethau iechyd yn cynnwys Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru. Cofnodwyd y costau hyn ym mhrif grwp gwariant yr ymddiriedolaethau.

(2) Mae adrannau corfforaethol yn cynnwys: cyllid, adnoddau dynol, strategaeth, cyfathrebu a chydraddoldeb, gwasanaethau cyfreithiol, gwybodaeth a gwasanaethau corfforaethol, swyddfa’r Prif Weinidog, a swyddfa’r Ysgrifennydd Parhaol.

Ymweliadau Tramor gan Weinidogion

Yr wyf wedi nodi’r ymweliadau tramor y bu Gweinidogion arnynt yn ystod blwyddyn galendr 2006 yn y tablau isod. Yr wyf hefyd wedi cynnwys costau, yn cynnwys costau swyddogion oedd yn mynd gyda hwy, lle gellir eu priodoli’n uniongyrchol i’r ymweliad (nid yw costau a wynebwyd gan Weinidogion a/neu swyddogion sydd wedi cael eu hawlio’n ôl ar ffurf treuliau ar gael yn hwylus ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys).

Y Prif Weinidog

Cyrchfan	Cost (£)	Pwrpas
Dubai	4,316	taith fasnach

Llydaw	2,995	annerch cyfarfod llawn o gyngor Llydaw
Brwsel	390	cyfres o gyfarfodydd
Riga	2,189	taith fasnach a chryfhau cysylltiadau o dan y memorandwm dealltwriaeth
Cyfanswm	9,889	

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cyrchfan	Cost (£)	Pwrrpas
Lesotho	6,006	cwrdd â Gweinidog Lesotho dros addysg a hyfforddiant
Brwsel	121	cyfarfod bwrdd Cymdeithas Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol Ewrop dros Ddysgu Gydol Oes
Brwsel	0	cynhadledd Cymdeithas Awdurdodau Rhanbarthol a Lleol Ewrop dros Ddysgu Gydol Oes
Paris	527	UNESCO
Boston	9,937	cynhadledd INET
Dulyn	0*	cyfarfod am godi’r oed dysgu gorfodol
Cyfanswm	16,591	

Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Cyrchfan	Cost (£)	Pwrrpas
Cork	385	ymchwilio ar gyfer regata gogledd Cymru (gyda Las)
Brwsel	2,471	cyflwyniad am brosiect Galileo
Cyfanswm	2,856	

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cyrchfan	Cost (£)	Pwrpas
Guernsey	961	Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig
Montpellier	1,843	cynhadledd datblygu bwyd-amaeth
Dubai	7,385	lansio cig oen Cymru
Cyfanswm	10,189	

Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyrchfan	Cost (£)	Pwrpas
Denmarc	9,614	cynhadledd y Ffederasiwn Rhyngwladol ar Heneiddio
Cyfanswm	9,614	

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cyrchfan	Cost (£)	Pwrpas
Iwerddon	143	Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig
Cyfanswm	143	

Byddaf yn rhoi copi o’r ateb hwn yn Llyfrgell y Cynulliad.

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49224)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.

Y Prif Weinidog: Gallai gadarnhau mai £16,000 oedd cost fy adroddiad blynyddol.

Leanne Wood: A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau faint o geir Gweinidogion sydd â gwasanaeth gyrrwr sy'n rhedeg ar danwyddau amgen? (WAQ49406)

Y Prif Weinidog: Mae'r fflyd bresennol yn rhedeg ar ddiesel ond mae Toyota Prius hybrid petrol/trydan ar archeb ar hyn o bryd. Yr ydym hefyd ar hyn o bryd yn treialu car Saab 9-5 Bio-Power sy'n rhedeg ar fio-ethanol (E85), tanwydd amgen sy'n cael ei gynhyrchu o amryw o ffynonellau biomas.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed ar fusnes y Cynulliad yn 2006, ynghyd â chost pob ymweliad? (WAQ49212) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49214) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe'ch cyfeirïaf at WAQ49223 a WAQ49226.

Alun Ffred Jones: Faint o bobl sydd wedi ymgeisio i fod yn aelodau o Fwrdd yr Iaith Gymraeg? (WAQ49371) [W]

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Mae 69 o bobl wedi ymgeisio i fod yn aelodau o Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Alun Ffred Jones: Sawl lle gwag sydd i'w llenwi ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg? (WAQ49372) [W]

Alun Pugh: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal proses benodiadau cyhoeddus i benodi 5 aelod i Fwrdd yr Iaith Gymraeg

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl Cymru yng Ngemau Olympaidd 2012? (WAQ49387)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 19 Chwefror 2007.

Alun Pugh: Bydd Caerdydd a Chymru, wrth gwrs, yn lleoliad Olympaidd a bydd gemau pêl-droed yn cael eu cynnal yn stadiwm y Mileniwm. Yr wyf yn hyderus y gall athletwyr o Gymru ennill llawer

o fedalau i Dîm Prydain Fawr yng Ngemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd (2008 a) 2012.

Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ei bolisiau ar etholaeth Dwyrain Abertawe? (WAQ49439)

Alun Pugh: Mae fy mholisiau i hyrwyddo diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon yn dod â budd i bobl ym mhob rhan o Gymru, yn cynnwys pobl yn eich etholaeth chi. Er enghraifft:

- Yr ydym yn gwneud cynnydd cyson yn ein hymdrech i gyrraedd y targedau a osodwyd yn Dringo’n Uwch. Dywed Cyngor Chwaraeon Cymru fod lefelau gweithgarwch corfforol oedolion wedi cynyddu’n eithriadol o dda, sef 4 y cant, er 2002-03. Mae hynny’n dystiolaeth bod ein gwahanol raglenni eisoes yn dechrau gwneud gwahaniaeth. Yn 2006-07, mae Cyngor Chwaraeon Cymru, drwy’r Gist Gymunedol, wedi cyfeirio dros £13,000 o arian at 20 o brosiectau i ddatblygu chwaraeon yn lleol yn Nwyrain Abertawe;
- Drwy Cadw, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig £25,000 yn fras o grant i helpu i adfer ac atgyweirio rhan o adeiladau hanesyddol pwysicaf Cymru yn etholaeth Dwyrain Abertawe, yn cynnwys Henlyn Isaf yn Ystradgynlais;
- Drwy CyMAL, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol yn Abertawe, sy’n gwasanaethu Dwyrain Abertawe, drwy ddyrannu rhyw £85,000 yn 2005-06 a £100,000 yn 2006-07 i’r prosiectau canlynol:

Grantiau CyMAL yn Abertawe

	Grantiau a Hawliwyd 2005-06	Grantiau a Ddyrannwyd 2006-07
Amgueddfeydd	£25,113.45	£19,080.36
Archifau	£9,614.31	£2,960.00
@ Eich Llyfrgell	£3,965.70	£42,476.00
Annog addysg	£46,175.27	£36,331.63
Cyfanswm	£84,868.73	£100,847.99

- Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe wrthi ar hyn o bryd yn datblygu strategaeth i’r celfyddydau gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru. Bydd hyn yn cynnwys digwyddiad cyhoeddus ym mis Ebrill i symud y celfyddydau ymlaen yn Abertawe, yn cynnwys Dwyrain Abertawe;
- Yr oedd Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn eithriadol o lwyddiannus a denodd dros

155,000 yn cynnwys llawer o bobl ifanc o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n bwysig cydnabod y cyfraniad y mae'r Eisteddfod yn ei wneud tuag at fywiogrwydd y Gymraeg yn y cymunedau y mae'n ymweld â hwy. Dangosodd adroddiad am effaith Eisteddfod Abertawe 2006 fod 80 y cant o ddysgwyr yn cytuno bod yr Eisteddfod wedi eu hysbrydoli i ddysgu mwy am ddiwylliant Cymru. Yr oedd gennyf ddiddordeb hefyd i nodi yn yr un adroddiad bod Eisteddfod Abertawe y llynedd wedi chwistrellu £6 miliwn i mewn i'r economi leol.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed ar fusnes y Cynulliad yn 2006, ynghyd â chost pob ymweliad? (WAQ49241) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49238) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe'ch cyfeiriaf at WAQ49223 a WAQ49226.

Nick Bourne: Pa drafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda chydweithwyr yn San Steffan dros y deuddeg mis diwethaf ynghylch mater ynni niwclear yng Nghymru ac a wnaiff ddarparu manylion? (WAQ49242)

Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies): Yr wyf yn ysgrifennu ar ôl ichi gyflwyno WAQ49242 ar 29 Ionawr i gael ei ateb ar 5 Chwefror. Yn anffodus, oherwydd camgymeriad gweinyddol, bu oedi cyn imi ateb eich cwestiwn ac ymddiheuraf am hyn.

Gofynasoch pa drafodaethau neu ohebiaeth yr wyf wedi'u cynnal gyda chydweithwyr yn San Steffan dros y 12 mis diwethaf ynghylch mater ynni niwclear yng Nghymru.

Yr wyf yn cynnal trafodaethau ac yn gohebu'n rheolaidd â chydweithwyr yn San Steffan am yr ystod lawn o faterion ynni sy'n effeithio ar Gymru, yn cynnwys polisi niwclear ac ystyriaethau yn ymwneud ag ymestyn oes weithredol gorsaf bwer yr Wylfa.

Alun Ffred Jones: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cynnydd gyda'r 'Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth i Gymru'? (WAQ49262)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 9 Chwefror 2007.

Andrew Davies: Yr ydym wedi cynnal nifer o astudiaethau gwerthuso annibynnol o brosiectau a rhaglenni gwaith a sefydlwyd dan y cynllun gweithredu entrepreneuriaeth. Mae canlyniadau'r gwerthusiadau hynny wedi bod yn sail i'n gwaith yn adolygu a gwella ein gwasanaethau i gefnogi menter ac entrepreneuriaeth yn barhaus. Mae hyn wedi cynnwys datblygu'r cyfleuster diagnostig ar-lein i helpu i ddeall anghenion unigolion yn well, datblygu rhaglen integredig Cymorth Cyffredinol i Fusnesau, a datblygu gallu ymysg asiantaethau cymorth busnes prif ffrwd i ddarparu cymorth dechrau busnes i grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol o'u plith. Yn 'Cymru: Economi yn Ffynnu' dadansoddasom y sialensiau sy'n wynebu economi Cymru o'r newydd, ac arweiniodd hynny at ffocws newydd ar gynyddu lefelau cyflogaeth a chodi ansawdd swyddi. Fel un o'r ffactorau allweddol sy'n hybu twf busnes, mae entrepreneuriaeth yn dal i fod yn elfen bwysig er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd o ran adeiladu ffordd osgoi Gartholwg? (WAQ49282)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 9 Chwefror 2007.

Andrew Davies: Mae Ffordd Osgoi Gartholwg yn gynllun yr ymrwymwyd iddo o dan y grant trafndiaeth. Yr wyf wrthi ar hyn o bryd yn ystyried cymorth i'r cynllun hwn yng nghyd-destun rhaglen y grant trafndiaeth a disgwyliaf wneud cyhoeddiad yn fuan fel rhan o setliad y grant trafndiaeth ar gyfer 2007-08.

Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am elfen ddiogelwch marciau ffordd ar gylchfan Crosshands? (WAQ49365)

Andrew Davies: Mae'r marciau ffordd presennol ar gylchfan Crosshands yn unol â'r safonau a osodwyd ym mhennod 5 o'r llawlyfr arwyddion traffig. Fodd bynnag, oherwydd pryderon ynglyn â diogelwch symudiadau traffig ar y gylchfan, mae fy swyddogion yn ymchwilio ar hyn o bryd i'r angen i wella'r marciau ffordd er mwyn cynyddu capasiti a diogelwch.

Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y posibilrwydd o uwchraddio'r A476? (WAQ49367)

Andrew Davies: Mae gwneud yr A476 rhwng yr M4 a Llandeilo yn gefnffordd yn un o'r cynigion sy'n ymddangos ar raglen dyfarnu a thynnu statws cefnffordd Llywodraeth y Cynulliad 2002. Mae amseriad cam o'r fath yn dal i gael ei ystyried ac mae ynghlwm â'r ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i adeiladu ffordd osgoi ar gyfer Llandeilo. Bydd y naill a'r llall o'r cynigion hyn yn amodol ar ymgynghori pellach, gweithdrefnau statudol priodol a pha un a fydd arian ar gael.

Alun Cairns: Pa amserlen fras y gall y Gweinidog ei chynnig o ran ystyried y cais cynllunio arfaethedig ar gyfer Parc Busnes Premier ar dir i'r gogledd o Gyffordd 33 ar yr M4? (WAQ49369)

Andrew Davies: Cafodd y cais cynllunio ei gyflwyno i Gyngor Sir Caerdydd ym mis Hydref, a chyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw ymdrin â'r cais. Er nad oes gennyf unrhyw wybodaeth am yr amserlen benderfynu, mae swyddogion yn fy adran mewn cysylltiad rheolaidd â'r partïon sy'n ymwneud â'r datblygiad arfaethedig ac maent yn parhau i fonitro'r cynnydd.

Alun Cairns: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi eu derbyn ynghylch y cais cynllunio arfaethedig ar gyfer Parc Busnes Premier ar dir i'r gogledd o Gyffordd 33 ar yr M4? (WAQ49370)

Andrew Davies: Mae parc busnes rhyngwladol arfaethedig Cymru, sydd wedi'i leoli ar safle 100 erw i'r gogledd o Gyffordd 33 ar yr M4, wedi ei fwriadu i greu lleoliad o safon fyd-eang a fydd yn gallu cystadlu ar lwyfan rhyngwladol i ddenu pencadlysoedd corfforaethol, cyfleusterau ymchwil a datblygu a swyddogaethau gwasanaethau busnes lefel uchel eraill a fydd yn creu ac yn cynnal cyflogaeth ddiogel, sy'n galw am lefelau sgiliau uchel ac yn denu cyflogau uchel. Mae'r achos o blaid parc busnes Premier wedi ei amlygu yng nghynllun gofodol Cymru a bydd yn llenwi bwlch cydnabyddedig o ran yr hyn y gall Cymru ei gynnig i fuddsoddwyr byd-eang.

Mae swyddogion yn fy adran yn cael cysylltiad rheolaidd â'r partïon sy'n ymwneud â'r datblygiad arfaethedig, ond nid oes unrhyw sylwadau uniongyrchol wedi dod ataf fi am y cais cynllunio a gyflwynwyd i gyngor Caerdydd.

Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw sylwadau y mae wedi'u gwneud ynghylch trosglwyddo swyddi Cyllid a Thollau EM o Bont-y-pwl i Gaerdydd? (WAQ49465)

Andrew Davies: Cyfrifoldeb Trysorlys EM yw'r mater hwn ac nid yw wedi cael ei ddatganoli i'r Cynulliad.

Yn anochel, bydd ffurf y gwasanaeth sifil yng Nghymru yn parhau i newid wrth i adrannau ad-drefnu ac i fanteision technoleg gael eu gwireddu. Yr ydym wedi arwain ymgyrch i wneud yn fawr o botensial Cymru i elwa drwy ennill swyddi yn sgil adolygiad Lyons ac i liniaru effeithiau cynlluniau effeithlonrwydd adolygiad Gershon yn yr ardaloedd hynny lle mae'n anodd canfod swyddi newydd yn lle swyddi a gollir. Yn ogystal, drwy ein strategaeth leoli, yr ydym wedi ymrwymo i ddatblygu presenoldeb Llywodraeth y Cynulliad ar draws Cymru, gan ddod â swyddi a buddsoddiad.

Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn

gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau y gallant helpu entrepreneuriaid lleol? (WAQ49467)

Andrew Davies: Mae'r swyddogion yn cwrdd â swyddogion datblygu economaidd lleol yn rheolaidd. Mae llawer o'n canolfannau Llygad Busnes wedi cael eu lleoli o fewn awdurdodau lleol, ac mae hynny'n hwyluso'r gwaith o drawsgyfeirio cleientiaid rhwng awdurdodau lleol, Llygad Busnes, asiantaethau menter a chymorth arall yn y sector preifat. Mae Llygad Busnes hefyd yn gweithio'n gyson gyda'r awdurdodau lleol i hyrwyddo digwyddiadau busnes lleol.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad ystadegau trafnidiaeth rhanbarthol sy'n dangos bod tagfeydd traffig ar brif ffyrdd yng Nghymru wedi cynyddu 20% rhwng 1995 a 2005? (WAQ49521)

Andrew Davies: Daw'r ffigurau y cyfeirir atynt o gyhoeddiad ar y we gan yr Adran Drafnidiaeth 'Regional Transport Statistics: 2006 edition'. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd y flwyddyn honno, ac mae'r ffigurau wedi'u seilio ar yr arolwg traffig a gynhaliwyd gan yr Adran Drafnidiaeth. Noddwyd elfen Cymru o'r arolwg gan uned cynllunio trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r ffigurau hyn yn disgrifio swmp y traffig. Nid mesur o dagfeydd mohonynt. Mae'r cynnydd o 20 y cant yng Nghymru dros y 10 mlynedd diweddar yn debyg i'r cynnydd mewn traffig mewn rhanbarthau eraill o Brydain Fawr. Yr unig ranbarth o Brydain lle gwelwyd cynnydd bach iawn yn swmp y traffig yw Llundain.

Mae'n bwysig nodi bod tua 65 y cant o draffig ffyrdd Cymru yn teithio ar draffyrdd a ffyrdd A. Yr oedd y cynnydd yn swmp y traffig yng Nghymru dros y cyfnod hwn o 10 mlynedd yn 46 y cant ar draffyrdd, 21 y cant ar gefnffyrdd gwledig ac 16 y cant ar ffyrdd A gwledig ac isffyrdd. Bu cynnydd llawer llai o lai na 5 y cant ar ffyrdd A trefol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod mynd i'r afael â'r cynnydd yn swmp y traffig a chostau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol dilynol tagfeydd traffig yng Nghymru yn her fawr.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar letygarwch yn 2006? (WAQ49233)

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed ar fusnes y Cynulliad yn 2006, ynghyd â chost pob ymweliad? (WAQ49236) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe'ch cyfeiriau at fy atebion i WAQ49223 a WAQ49226.

Nick Bourne: A oes gan y Gweinidog gynlluniau i ehangu'r cynllun brecwast ysgol am ddim yng Nghymru? (WAQ49257)

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson): Ein hymrwymiad—fel y bu erioed—yw darparu'r cyllid fel bod cyfle i bob plentyn o oedran cynradd sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol gynradd gofrestredig yng Nghymru gael brecwast iach am ddim yn yr ysgol bob dydd. Yr ydym yn hyrwyddo'r cynllun yn ddiwyd ac yn annog ysgolion i gymryd rhan ynddo.

Mae pob ysgol wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan. Mae'r awdurdodau lleol yn gweithio gyda'u hysgolion i gynllunio amserlen weithredu. Yr wyf wrth fy modd yn dweud, ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael oddi wrth yr awdurdodau lleol, fod cyfanswm o 561 o ysgolion wedi cadarnhau erbyn hyn eu bod wedi dechrau gweini brecwast erbyn diwedd tymor yr hydref 2006. Mae 110 o ysgolion pellach i fod i ddechrau cymryd rhan erbyn diwedd tymor y gwanwyn eleni. Hefyd, mae pum ysgol arall wedi ymrwymo i gymryd rhan erbyn diwedd tymor yr hydref 2007. Rhydd hyn gyfanswm o 676 o ysgolion cynradd sydd i gyfrif am ryw 42 y cant o'r holl ysgolion cynradd yng Nghymru.

Jeff Cuthbert: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau hyrwyddwr addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang Cymru, fel y maent yn berthnasol i'r sector ffurfiol? (WAQ49398)

Jane Davidson: Yng nghyd-destun cyffredinol gyrru'r set gyfan o gamau gweithredu yng nghynllun gweithredu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ymlaen, y blaenoriaethau allweddol i'r sector ysgolion ffurfiol yw gwneud yn siwr:

- bod pob sefydliad hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r staff fel bod modd i addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ennill ei phlwyf ym mhob un o'i gyrsiau;
- bod awdurdodau lleol yn gweithio tuag at ddatblygu strategaethau addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang sy'n cydgysylltu â chynlluniau strategol eu hawdurdod addysg lleol a chynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- bod safonau cyffredin yn cael eu cynhyrchu o ran addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang sy'n tynnu sylw at ehangder y maes ar draws y sbectrwm amgylcheddol, cymdeithasol-economaidd a byd-eang y mae'n ei gwmpasu. Dylai'r safonau hefyd sicrhau bod y nod ansawdd hwn yn amlygu'r cysylltiadau rhwng addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn yr ysgol a thrwy agweddau megis dysgu y tu allan i'r ysgol;

- bod ysgolion yn edrych eto ar y posibilïadau i newid y trefniadau caffael bwyd, cynyddu bioamrywiaeth ar dir yr ysgol, defnyddio bwydydd a diodydd iach a chynaliadwy, polisïau masnach deg a pholisïau trafnidiaeth cynaliadwy i ddisgyblion a staff ac i'r sefydliad ei hun o fewn eu cynlluniau datblygu ysgol;
- bod y cynllun gweithredu ar alluogi cymorth effeithiol i gefnogi cyflwyno addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei weithredu fel y bwriadwyd; a
- bod tystiolaeth sy'n dangos arferion da ym maes addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ar gael i bob ysgol a'i phartneriaid fanteisio arni.

Un flaenoriaeth drosfwaol allweddol yw'r angen ar i'r hyrwyddwr addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ddatblygu cynnig cyllido manwl sydd wedi cael ei gostio'n llawn yng nghyswllt y camau gweithredu hyn a'r holl gamau gweithredu eraill yn y cynllun. Bydd y cynnig yn sail i benderfyniadau cyllideb Llywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid allweddol eraill, sy'n ymwneud â rhoi'r cynllun ar waith, yn y dyfodol.

Jeff Cuthbert: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth cyfredol, a nodwyd gan Estyn yn ei adroddiad "Sefydlu datganiad safbwynt ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yng Nghymru" rhwng y ffordd y dehonglir ac y dysgir addysg datblygu cynaliadwy ac addysg dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion yng Nghymru? (WAQ49399)

Jane Davidson: Tynnodd arolwg llinell sylfaen Estyn o addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang sylw at anghydbwysedd rhwng agweddau datblygu cynaliadwy'r pwnc a'i ddimensiwn dinasyddiaeth fyd-eang. Yr oedd llawer o'r ysgolion a'r colegau y bu'n arsylwi arnynt wedi gwneud gwaith ar ynni, sbwriel, bwyta'n iach a gwella tir yr ysgol ond yr oedd llawer llai wedi gwneud gwaith ansawdd ar anghenion a hawliau, materion tlodi ac agweddau eraill o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae rhoi sylw i'r anghydbwysedd hwn a chefnogi dinasyddiaeth fyd-eang o fewn addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn flaenoriaeth allweddol yn ein cynllun gweithredu ac yn rhaglen waith yr hyrwyddwyr addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang a benodwyd yn ddiweddar.

Mae'r cynnig i ddatblygu 'dealltwriaeth gyffredin' o addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn ei chyfanrwydd yn rhan annatod o'r cynllun gweithredu a bydd yn rhoi mwy o eglurder i ysgolion. Bydd hyn yn amlygu ei themâu allweddol a'r cydberthnasoedd rhyngddynt. Bydd yn cynnig llwybr rhwng cynlluniau a'i gilydd fel bod ysgolion, ni waeth ymhle ar y cwricwlwm y maent yn cychwyn, yn gallu ymdrin yn gynyddol â phob elfen hanfodol.

Yr ydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch y cwricwlwm ysgol diwygiedig a fydd yn dod i rym o fis Medi 2008. Mae'r deunyddiau ymgynghori yn hyrwyddo ac yn cefnogi addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn un o'r pum thema o fewn y fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ac mae holl bynciau'r cwricwlwm

cenedlaethol yn cynnwys datganiad sy’n ei gwneud yn ofynnol rhoi cyfleoedd i ddysgwyr i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Yn olaf, mae’r diweddariad a roddwyd gan Estyn i’w holl arolygwyr ym mis Medi 2006 yn tynnu sylw at ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ac yn ymdrin â’r anghydbwysedd posibl. Mae’n annog pob arolygydd i ymgyswrtu â’r datganiad sefyllfa am addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang ac yn cynnig cyngor ar sicrhau bod agweddau byd-eang y pwnc, megis agweddau’n ymwneud ag amrywiaeth ddiwylliannol, datrys anghydfod a datblygu dealltwriaeth fyd-eang, yn cael eu gwerthuso i’r un graddau wrth arolygu ysgolion.

Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ei pholisïau ar etholaeth Dwyrain Abertawe? (WAQ49441)

Jane Davidson: Yn unol â gweledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru a nodwyd yn ‘Cymru: Gwlad Well’ ac yn fwy diweddar yn fy nghynlluniau i yn ‘Y Wlad sy’n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith’, ein nod yw sicrhau’r amgylchedd gorau posibl i annog dysgu ym mhob cyfnod o fywydau pobl. O safbwynt ehangach, yr wyf yn cadeirio grwp cynllun gofodol y Gweinidog ar gyfer bae Abertawe a’r cymoedd gorllewinol, sy’n datblygu strategaeth glir er mwyn datblygu rhanbarthau’r ddinas.

Mae effaith fy mholisïau yn Nwyrain Abertawe, fel yn wir yn Abertawe gyfan, i’w gweld yn eang o addysg y blynyddoedd cynnar ar hyd holl sbectrwm dysgu gydol oes.

Seiliau Cryf

Yr ydym yn cyrraedd llawer o blant a phobl ifanc ddifreintiedig a’u teuluoedd ledled Abertawe drwy gynllun grant Cymorth. Mae cyllid Abertawe yn 2006-07 yn £4,215,193, yn cael ei ddyrannu drwy 75 o brosiectau unigol.

Mae rhaglen Dechrau’n Deg yn targedu plant 0 i dair oed yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru a chaiff ei dosbarthu drwy’r dalgylchoedd ysgolion a enwebwyd fel y rhai sy’n cynrychioli’r ardaloedd hyn orau. Y nifer targed o blant y mae Abertawe i fod i’w cyrraedd yw 1,300.

Mae cyllid Abertawe yn 2006-07 yn £782,810, a £2,081,398 yn 2007-08. Dyfarnwyd cyllid cyfalaf o £244,000 i Abertawe yn 2006-07 ac mae gan Abertawe gyfle hefyd i gyflwyno cais yn erbyn y £3.5 miliwn sydd ar gael ar draws Cymru yn 2007-08.

Mae’r prosiectau cyfalaf hyn wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer 2006-07:

Ailwampio Ysgol Gynradd Hafod fel cyfleuster gofal plant	£50,000

Ailwampio Ysgol Gynradd Clwyd fel cyfleuster gofal plant	£50,000
Ailwampio Ysgol Gynradd Townhill fel cyfleuster gofal plant	£72,000
Ailwampio Ysgol Gynradd Waun Wen fel cyfleuster gofal plant	£72,000

Y dalgylchoedd ysgolion sydd wedi cael eu cymeradwyo yw:

Ysgol Gymunedol Clwyd	Eppynt Road, Penlan, Abertawe SA5 7AZ
Ysgol Gynradd Arfryn	Heol Frank, Penlan, Abertawe SA5 7AH
Ysgol Gynradd Blaenymaes	Broughton Avenue, Blaenymaes, Abertawe SA5 5LW
Ysgol Gynradd Hafod	Odo Street, Hafod, Abertawe SA1 2LT
Ysgol Gymunedol Sea View	Creidol Road, Mayhill, Abertawe SA1 6TX
Ysgol Gynradd Waun Wen	Lion Street, Waun Wen, Abertawe SA1 2BZ
Ysgol Gynradd Townhill	Townhill Road, Townhill, Abertawe SA1 6PT

Mae Ysgol Gynradd Cadle yn Abertawe yn cymryd rhan ym mheilot y cyfnod sylfaen.

Mae £218,348 wedi cael ei ddyrannu i'r AALL dan y rhaglen ysgolion bro. Ymysg y cynlluniau a gefnogwyd hyd yma mae:

- defnydd cymunedol o'r cyfleuster chwaraeon ac addysgu newydd yn Ysgol Uwchradd Llandeilo Ferwallt;
- sefydlu llyfrgell gymunedol yng Nghefn Hirgoed;
- gweithio ar sefydlu gardd Tsieineaidd gyda'r gymuned Tsieineaidd a chynnal Diwrnod Amgylcheddol (Pentrehafod); a
- Sefydlu rhaglen Dysgu Teuluol gyda phlant a rhieni o ardal Townhill.

O'r cyfanswm o 91 o ysgolion cynradd yn yr awdurdod, mae 63 yn gweini brecwast erbyn hyn fel rhan o'r fenter brecwast am ddim i ysgolion cynradd a bydd wyth arall yn ymuno erbyn diwedd tymor yr hydref 2007. Mae rhestr o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun ar gael ar y wefan—<http://urlcutter.com/healthybreakfast>

Ysgolion a dysgu

Dan y grant gwella adeiladau ysgolion am 2006-07 yr oedd y dyraniad fformiwla yn £1,246,000 ac yn 2007-08 mae'n £2,503,000.

Hefyd, dyfarnwyd cyfandaliad grant gwella adeiladau ysgolion o £9 miliwn i Abertawe rhwng 2005-06 a 2007-08. Dyrannwyd hwn fel bod modd bwrw ymlaen â phrosiectau moderneiddio cyfalaf mewn pum ysgol, sef Ysgol Gyfun Gwyr, Ysgol Gyfun Bryntawe, Morriston Comprehensive, Gowerton Comprehensive ac ysgol gynradd newydd i ddisodli ysgolion babanod ac iau Dynfant.

Mae 517 o ddisgyblion yn Abertawe wedi elwa o grant gwisg ysgol o £95 yr un gan Lywodraeth y Cynulliad.

Cynyddodd y ganran o ddisgyblion a gyrhaeddodd y dangosydd pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3 5 pwynt canran rhwng 2003 a 2006 yn Nwyrain Abertawe, Hefyd, bu cynnydd dros yr un cyfnod yn y ganran o ddisgyblion a enillodd bump neu fwy TGAU ar raddau A* i C.

Mae'r rhaglen codi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion yng Nghymru yn ceisio targedu'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyraeddiadau isel ymysg disgyblion. Darperir arian grant i ysgolion sydd â mwy na 50 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol ar y gofrestr a bod mwy nag 20 y cant ohonynt â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae arian yn cael ei ddarparu am ddwy flynedd academaidd (2006-07 a 2007-08). O'r £14.6 miliwn a ddosbarthwyd yn 2006-07, mae ysgolion yn etholaeth Dwyrain Abertawe wedi cael cyfran o £901,130 o arian grant. Yn ogystal, fel rhan o raglen ehangach Rhagori, mae arian yn cael ei ddarparu i'r awdurdodau lleol drwy grant plant sy'n derbyn gofal Rhagori. Bydd hwn yn eu galluogi i ddarparu cymorth i blant sy'n derbyn gofal, yn arbennig y rheini ym mlynnyddoedd 10 ac 11, i'w galluogi i fynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch neu i ddysgu seiliedig ar waith. O'r £1 miliwn a ddosbarthwyd yn 2006-07, cafodd Abertawe gyfran o £81,422 ar ffurf arian grant plant sy'n derbyn gofal.

Llwybrau Dysgu 14-19 a Thu Hwnt

Fel rhan o strategaeth Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cynulliad Cymru dyrannwyd £245,813 i Abertawe yn 06-07 ac £836, 748 yn 2007-08. Nod y strategaeth yw trawsnewid cyfnod addysgol 14-19 i ddysgwyr, ac mae'n canolbwyntio ar ehangu'r ddarpariaeth addysg alwedigaethol, datblygu cymorth i ddysgwyr, a gwella'r cydweithredu rhwng darparwyr dysgu.

Mae Coleg Abertawe yn cymryd rhan ym mheilot ôl-16 Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac yr oedd yng ngharfan gyntaf y peilot a ddechreuodd ym mis Medi 2003. Mae Ysgol Gyfun Babyddol Bishop Vaughan wedi gwneud cais llwyddiannus am gael cyflwyno rhaglen y fagloriaeth o fis Medi 2007.

Y Tu Hwnt i Addysg Orfodol

Mae cyllid o £200,000 wedi cael ei gynnig i'r awdurdod i arwain prosiect a fydd yn datblygu gwasanaeth strategol addysg a dysgu gydol oes drwy gonsortïwm i'r De-orllewin a'r Canolbarth.

Fel rhan o brosiect y gronfa buddsoddi ar y cyd, mae darparwyr addysg gymunedol i oedolion wedi cyfuno i gynhyrchu taflenni marchnata cyffredin ac yr ydym yn treialu darpariaeth sy'n cael ei chyd-drefnu i osgoi dyblygu.

Yr oedd y cyllid buddsoddi ar y cyd a ddyfarnwyd i Abertawe yn 2006-07 yn £448,961 ar draws Abertawe. Mae wedi golygu bod modd parhau i ddatblygu'r prosiect rhith amgylchedd dysgu, SALIERI, creu manyleb ddylunio i ganolfannau dysgu ar draws y chweched dosbarth mewn ysgolion ac addysg bellach a gwneud gwaith cyfalaf i greu canolfannau dysgu mewn sawl lleoliad, ac mae wedi bod yn fodd hefyd i ddatblygu materion ansawdd ym maes dysgu cymunedol i oedolion, marchnata a darparu sesiynau blasu'r cwricwlwm yn y gymuned. Mae cyllid cyfalaf wedi cael ei ddarparu hefyd ym maes dysgu cymunedol i ychwanegu at a gwella'r profiad dysgu, a'r cyfleusterau sydd ar gael mewn nifer o ganolfannau sy'n cael eu rhedeg gan y ddau goleg lleol a'r awdurdod lleol. Drwy hyn mae gwell cyfleusterau'n cael eu darparu a chefnogir y dull cydweithredol o roi prosiectau ar waith a chanlyniadau'r prosiectau.

Mae'r naill sefydliad addysg bellach a'r llall yn Abertawe yn dal i gynnig darpariaeth ragorol, fel y mae'r graddau uchel y mae Estyn yn eu rhoi iddynt yn ei ddangos.

Cymeradwywyd 1,990 o bobl ifanc i gael lwfans cynhaliaeth addysg, ac o'r rheini mae 1,660 (neu 83 y cant) yn gymwys i gael y dyfarniad uchaf o £30 yr wythnos (data dros dro am 2006-07).

Mae 1,130 o fyfyrwyr cymwys wedi elwa drwy gael grant dysgu gan y Cynulliad yn 2005-06. Mae'r grant hwn yn dal i ddarparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel pan fyddant yn ymgymryd â chysiau addysg bellach ac addysg uwch. Grant o hyd at £1,500 nad oes rhaid ei ad-dalu yw grant dysgu'r Cynulliad.

Addysg Uwch

Dengys data diweddaraf yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch fod 1,765 o fyfyrwyr addysg uwch o Ddwyrain Abertawe wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2005-06.

Cydweithredu ac ad-drefnu

Mae Prifysgol Cymru Abertawe ac Athrofa Addysg Uwch Abertawe yn ddau o'r partneriaid ym Mhartneriaeth AU De-orllewin Cymru. Dyrannwyd £70,000 i'r Bartneriaeth ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb. Disgwylir y cynnig llawn i roi cam 2 ar waith yn fuan. Bydd hynny'n rhoi cydweithrediad gweinyddol ymarferol ar waith rhwng y ddau sefydliad, ar gost gychwynnol o bron i £11 miliwn.

Mae Prifysgol Cymru Abertawe ac Athrofa Addysg Uwch Abertawe wedi gwneud gwaith rhesymoli ym meysydd y gyfraith, nyrsio ac addysg. Mae'r Cynulliad wedi cefnogi'r rhesymoli gan ddyrannu rhyw £3.77 miliwn o'r gyllideb 'Ymgeisio yn Uwch'.

Mae Prifysgol Cymru Abertawe yn bartner yn Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru. Dyrannwyd £5.173 miliwn i'r sefydliad o'r gyllideb 'Ymgeisio yn Uwch'. Bydd hyn yn tynnu incwm grant ychwanegol i mewn ac yn ei hanfod bydd yn dod â manteision iechyd e.e. i bobl sydd wedi cael strôc a diffygion meddyliol eraill.

Mae Prifysgol Cymru Abertawe yn gweithio'n ddiwyd gyda Phrifysgol Caerdydd ar resymoli'r

ddarpariaeth cemeg. Gwneir hyn i gryfhau meysydd allweddol yn y naill sefydliad a'r llall ac mae'n cael cymorth hyd at lefel gyllido o £1.205 miliwn o'r gyllideb 'Ymgeisio yn Uwch'.

Y brifysgol yw'r sefydliad arwain yn y gwaith o ddatblygu Athrofa Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannu Cymru. Eto, cefnogir hyn gan y gyllideb 'Ymgeisio yn Uwch' hyd at lefel o £5.021 miliwn.

Mae Athrofa Addysg Uwch Abertawe yn bartner yn Academi Sgrin Cymru, a fydd yn cynhyrchu graddedigion ar gyfer y diwydiant ffilm sy'n barod i weithio yn y diwydiant. Mae'n cael ei darparu mewn partneriaeth â Skillset, y cyngor sgiliau sector perthnasol i'r diwydiant. Mae rhyw £620,000 wedi cael ei ddyrannu i'r Academi Sgrin o gyllideb 'Ymgeisio yn Uwch'.

Nick Bourne: Pa ganllawiau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi i awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch cau ysgolion yn ystod tywydd garw? (WAQ49448)

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau ysgolion yng Nghymru oherwydd tywydd garw? (WAQ49449)

Nick Bourne: Pa gyfarwyddiadau, os o gwbl, a roddodd y Gweinidog i awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch cau ysgolion oherwydd yr eira diweddar? (WAQ49450)

Jane Davidson: Nid wyf wedi rhoi unrhyw ganllawiau i ysgolion ar sut i ymateb i dywydd garw. Mater i'r AALlau ac ysgolion unigol yn llwyr yw hwn gan y byddai'n rhaid iddynt ystyried a fyddai'r staff a'r disgyblion yn gallu cyrraedd yr ysgol a mynd adref yn ddiogel.

Mae'r AALl yn rhoi canllawiau ond y pennaeth dan sylw sy'n penderfynu yn y pen draw. Bydd ei benderfyniad yn dibynnu ar asesu nifer o ffactorau yn cynnwys rhagolygon y tywydd, y sefyllfa yn yr ardal lle saif yr ysgol ar y pryd, faint o'r staff sy'n gorfod teithio, ac ati. Nid yw'r ffaith na all y pennaeth gyrraedd yr ysgol ynddo'i hun, fodd bynnag, yn rheswm digonol i beidio ag agor.

Y ddeddfwriaeth berthnasol yw Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn pwysleisio y dylai pob penderfyniad am gau ysgol neu anfon plant adref yn gynnar gael ei ystyried yng ngoleuni'r ffaith bod gan bob plentyn hawl i 190 o ddiwrnodau o addysg y flwyddyn. Cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw sefydlu gweithdrefnau ar gyfer yr ysgol a sicrhau bod pob aelod o'r staff yn glir ynglyn â'i rôl a'i gyfrifoldeb yn ystod tywydd garw.

Jocelyn Davies: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cynnal yn ddiweddar gydag AALl Caerffili ynghylch Ysgol Penallta, a chyfrwng iaith yr ysgol yn benodol? (WAQ49463)

Jane Davidson: Nid wyf wedi cael trafodaethau'n ddiweddar gydag AALl Caerffili am Ysgol

Gynradd Penallta. Cyhoeddodd yr awdurdod gynnig statudol i sefydlu ysgol gynradd ddwyieithog newydd yn natblygiad Penallta ym mis Medi 2004. Nid oedd gwrthwynebiadau i'r cynnig felly nid oedd gofyn i mi ei gymeradwyo. Deallaf fod y cynnig i fod i gael ei weithredu ar 1 Medi 2007.

Janice Gregory: Faint o fyfyrwyr o etholaeth Ogwr sy'n mynychu prifysgolion Cymru? (WAQ49468)

Jane Davidson: Mae data diweddaraf yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn dangos bod 1,610 o fyfyrwyr AU o etholaeth Ogwr wedi cofrestru yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn 2005-06.

Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cynnydd er 2003 o ran cwtogi maint dosbarthiadau iau yn etholaeth Ogwr? (WAQ49469)

Jane Davidson: Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ddosbarthiadau iau yn etholaeth Ogwr oedd â mwy na 30 o ddisgyblion ym mis Medi 2003 ac ym mis Medi 2006. Gan mai dim ond o 2004 y casglwyd data am eithriadau a gâi eu caniatáu i'r cyfyngiad o 30 disgybl, mae'r ffigurau yn y tabl canlynol yn cynnwys dosbarthiadau o'r fath.

	Cyfanswm		Fel % o'r cyfanswm	
Blwyddyn	Dosbarthiadau	Disgyblion	Dosbarthiadau	Disgyblion
2003	23	744	20.4	24.7
2006 (a)	5	156	4.4	5.3

Ffynhonnell: Cyfrif maint dosbarthiadau mis Medi.

(a) Yr oedd un dosbarth yn cynnwys 31 o ddisgyblion yn eithriad a gâi ei ganiatáu i'r cyfyngiad o 30. O hepgor y dosbarth hwn ceir canran o 3.5 y cant o ddosbarthiadau gyda mwy na 30 o ddisgyblion a 4.3 y cant o ddisgyblion mewn dosbarthiadau o'r fath.

William Graham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu nifer yr ysgolion a gaewyd yng Nghymru oherwydd y tywydd garw ar 8 a 9 Chwefror? (WAQ49486)

Jane Davidson: Yr AALLau a chyrff llywodraethu ysgolion unigol sy'n gyfrifol yn statudol am benderfynu a ddylai ysgol gau oherwydd tywydd garw ai peidio. Nid ydym, felly, yn dal y wybodaeth yr ydych yn ei cheisio yn ganolog.

William Graham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae polisiau addysg Llywodraeth y Cynulliad yn annog y sector annibynnol i gymryd rhan yng nghyswllt darparu gwasanaethau ysgolion? (WAQ49487)

Jane Davidson: Yr wyf wedi trafod yr angen am i ysgolion annibynnol gydweithio gydag ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol gyda Chyngor Ysgolion Annibynnol Cymru cyn hyn, er enghraifft, drwy rannu cyfleusterau ac adnoddau, fel caeau chwarae.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dechrau gweithio'n fuan i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer plant mewn angen, yn cynnwys plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, gyda golwg ar gyhoeddi drafft i ymgynghori yn ei gylch yn hydref 2007.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y disgyblion un ar bymtheg oed sy'n gadael yr ysgol heb unrhyw fath o gymwysterau? (WAQ49488)

Jane Davidson: Ar 21 Rhagfyr 2006 cyhoeddais fod y nifer o bobl ifanc 16 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig yng Nghymru wedi cyrraedd y lefel isaf erioed.

Mae ffigurau newydd am 2006 yn dangos y bu gostyngiad yn y nifer o ddisgyblion un ar bymtheg oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig o 832 i 806.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod y gyfundrefn addysg yn symud i'r cyfeiriad iawn. Mae ennill o leiaf un cymhwyster yn hanfodol er mwyn rhoi cyfle o well bywyd, swydd sy'n talu'n well a mwy o sicrwydd i'r dyfodol i bobl ifanc.

Yr ydym yn dal yn benderfynol—fel y nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'—na ddylai unrhyw ddisgybl adael addysg heb gymhwyster cymeradwy erbyn 2010.

Drwy annog rhagor o bobl ifanc i wireddu eu potensial byddant wedi cael eu paratoi'n well ar gyfer byd gwaith a byddant yn dod yn ddinasyddion mwy gwybodus a gweithgar. Rhaid inni ennyn eu diddordeb a'u symbylu i gyrraedd y lefel gyflawni uchaf bosibl sydd hefyd yn cynyddu potensial Cymru.

Mewn llawer o achosion gallai fod yn fwy buddiol i'r person ifanc ddilyn yr opsiynau galwedigaethol neu seiliedig ar waith yn hytrach na llwybr academiaidd pur.

Yn y cynllun gweithredu 14-19 yr ydym wedi gosod targedau clir i'n hunain ar hyn—erbyn Medi 2008 byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd wedi cael eu sefydlu i bobl ifanc i ymgymryd â dysgu seiliedig ar sgiliau a dysgu galwedigaethol.

Mae rhyngwyneb pwysig hefyd rhwng dysgu seiliedig ar waith a pholisi llwybrau dysgu 14-19 Llywodraeth y Cynulliad, sy'n ceisio sicrhau bod pobl ifanc o bob gallu yn gallu cyrchu at amrywiaeth llawer ehangach o opsiynau, yn cynnwys profiad gwaithganolog.

Yn 2006-07 yr oedd yr arian a oedd ar gael i'r rhwydweithiau 14-19 yn gyfanswm o £8.5 miliwn ar draws Cymru gyfan. Yr oedd yn cynnal datblygiad y gwaith yn ardaloedd y rhwydweithiau 14-19 yn bwrw ymlaen â rhwydweithiau dysgu sy'n cynnwys amryw o weithgareddau cydweithredol a fwriedir i ostwng y nifer o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau.

Mae'r cyllid yr wyf wedi ei ddarparu ar gyfer 2007/08 yn £32.5 miliwn, sy'n cynrychioli buddsoddiad sylweddol yn y llwybrau dysgu 14-19 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn allweddol i newid y patrwm gwariant ym mhob sefydliad dysgu partner a bydd yn help i sicrhau gwell cyflawniadau i'r dysgwyr i gyd.

Mae rôl yr anogwr dysgu hefyd yn ddatblygiad tyngedfennol i helpu i gadw pobl ifanc ym myd dysgu. Mae rôl yr anogwr dysgu yn allweddol er mwyn cefnogi'r dysgwr yn yr agweddau hynny o'r llwybr dysgu llawn sy'n berthnasol i ddysgu, ac mae'n canolbwyntio ar wneud yn fawr o allu'r person ifanc i ddysgu a'i symbyliad i aros ym myd dysgu er mwyn ennill cymwysterau.

Mae angen mwy o gymorth personol ar lawer o bobl ifanc hefyd i'w helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu, i aros ym myd addysg ac i fanteisio ar gyfleoedd i ennill cymwysterau. Mae mynediad at gymorth personol yn un arall o elfennau allweddol y llwybrau dysgu.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ei hymroddiad i ddarparu brecwast am ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd? (WAQ49489)

Jane Davidson: Nid oes gennyf ddim pellach i'w ychwanegu at y llythyr a anfonais atoch ar 9 Chwefror mewn ymateb i WAQ49257 a gyflwynwyd i gael ei ateb ar 5 Chwefror 2007.

Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae hi'n hyrwyddo cyfle cyfartal yn ysgolion Cymru? (WAQ49490)

Jane Davidson: Mae'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wrthi'n weithredol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn ysgolion Cymru drwy'r polisïau canlynol:

Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion

Rhoddwyd canllawiau cynhwysfawr ar 'Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' i bob ysgol, awdurdod lleol a'u partneriaid fis Tachwedd diwethaf. Mae'r canllawiau'n nodi'r angen i awdurdodau lleol ac ysgolion ddatblygu dulliau ysgol gyfan o ddarparu ar gyfer yr amrywiaeth ymysg eu disgyblion a'u hanghenion unigol. Mae'n nodi canllawiau a dulliau gweithredu i'w rhoi ar waith yng nghyswllt

grwpiau penodol o ddisgyblion y mae perygl iddynt gael eu gwahardd o'r system ysgol neu o fewn y system.

Cafodd y gofyniad ar i awdurdodau lleol gynorthwyo ysgolion gydag agweddau o gyfle cyfartal a datblygu cynlluniau o ran dulliau gweithredu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ei nodi yn y canllawiau ar gynlluniau addysg sengl a gyhoeddwyd ar gyfer 2006-07 a 2007-08. Bydd y gofyniad hwn yn parhau i fod yn rhan o'r canllawiau ynglyn â chynlluniau plant a phobl ifanc a fydd yn cael eu cylchredeg at ddibenion ymgynghori ym mis Mawrth 2007.

Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion (Rhagori)

Bwriadwyd rhaglen Rhagori i dargedu'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad ac i wella disgwyliadau a chyrhaeddiad addysgol disgyblion difreintiedig o bob oedran.

Mae tair elfen allweddol i'r rhaglen:

- mae £14.6 miliwn wedi cael ei ddosbarthu i ysgolion targed i gyllido prosiectau a chynlluniau sydd â ffocws penodol sy'n anelu at gynorthwyo disgyblion sy'n ddifreintiedig neu y mae'r perygl mwyaf iddynt gyflawni ar lefel isel—neu adael addysg amser llawn heb unrhyw gymwysterau. Dynodwyd yr ysgolion ar y sail fod ganddynt fwy na 50 o ddisgyblion o oed ysgol gorfodol ar y gofrestr a bod mwy nag 20 y cant ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl data'r cyfrifiad. Rhestrwyd 648 o ysgolion ar y sail hon i gael cyllid dros gyfnod dwy flynedd y grant. Bydd y gweithredu yn digwydd dros ddwy flynedd academaidd: 2006-07 a 2007-08. Mae'r ysgolion wedi darparu cynigion amlinell yn dangos sut y byddant yn defnyddio'r grant ac mae gwaith wedi dechrau yn y mwyafrif helaeth o'r ysgolion;
- mae £1 miliwn yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol i'w galluogi i ddarparu cymorth i blant sy'n derbyn gofal, yn enwedig y rhai ym mlynnyddoedd 10 ac 11, i'w galluogi i fynd ymlaen i addysg bellach ac uwch neu i ddysgu seiliedig ar waith. Dyrannwyd grant ar sail fformiwla: bydd y gweithredu yn digwydd dros ddwy flynedd academaidd, 2006-07 a 2007-08. Daeth cynigion i law oddi wrth bob awdurdod yn dangos sut y byddent yn defnyddio'r cyllid ac mae'r gweithredu wedi dechrau ym mhob awdurdod;
- mae'r balans yn cyllido gweithredu ychwanegol i wella ysgolion sy'n cael ei gyd-drefnu gan consortia awdurdodau lleol i weithio gydag AALlau ac ysgolion i ddynodi a rhannu arferion gorau a gwerthusiadau allanol. Mae cyd-drefnydd cenedlaethol wedi cael ei secondio i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyd-drefnu'r gwaith ar lefel genedlaethol. Bydd tystiolaeth o weithgarwch y consortia a gwerthuso allanol yn darparu sylfaen dystiolaeth gref a ddefnyddir i gynllunio cyfeiriad polisi i'r dyfodol.

Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn chwilio am secondai i weithio gyda'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r awdurdodau lleol i roi ymyriadau ar waith i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal.

Bydd y secondai'n gweithio hefyd ar strategaeth plant sy'n derbyn gofal y Cynulliad ac yn llunio cysylltiadau agos â'r cyd-drefnwyr Rhagori rhanbarthol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu grwp rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun gweithredu i wella addysg a hyfforddiant plant sy'n derbyn gofal a bydd gwaith y grwp yn bwydo i mewn i strategaeth gyffredinol ar wella gwasanaethau i blant mewn angen, yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, sydd i fod i gael ei chyhoeddi yn hydref 2007.

Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig

Bydd canllawiau ar yr egwyddorion a'r arferion perthnasol er mwyn codi cyraeddiadau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn hydref 2007. Bydd y rhain yn sefyll ochr yn ochr â grant blynyddol Llywodraeth y Cynulliad i awdurdodau addysg lleol i'w helpu i godi lefelau cyflawni lleiafrifoedd ethnig ac i ddiwallu anghenion gwahanol dysgwyr sy'n geiswyr lloches a Sipsiwn/Teithwyr. Yr oedd y grant yn £8 miliwn ar gyfer 2006-07.

Bydd canllawiau ar wahân am addysg disgyblion sy'n Sipsiwn ac yn Deithwyr hefyd yn cael eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn hydref 2007.

Y Blynyddoedd Cynnar

Bydd y cyfnod sylfaen i blant tair i saith oed yn rhoi i bob plentyn ifanc gwricwlwm sy'n briodol yn ddatblygiadol, a fydd yn darparu ar gyfer eu hanghenion, yn rhoi iddynt ddechrau rhagorol mewn bywyd ac yn eu helpu hwy a'u teuluoedd i osod dyheadau uchel o ran llwyddiant academaidd a chymdeithasol yn y dyfodol. Mae'n gwricwlwm sy'n adeiladu ar yr hyn y gall plant ei wneud a'r hyn y maent hwy'n ei gyfrannu i'r amgylchedd dysgu.

Y Cwricwlwm Ysgol

Ar 8 Ionawr lansiodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ymgynghoriad ynghylch trefniadau diwygiedig i'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru. Nod y cynigion yw sicrhau y bydd y trefniadau cwricwlwm, asesu a chymwysterau newydd i ysgolion yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgu gyda ffocws ar sgiliau, ac y bydd yn adeiladu ar y cyfnod sylfaen ac yn cysylltu'n effeithiol â'r rhaglen llwybrau dysgu 14-19. Yr oedd y cynigion ym mhob dogfen yn cynnwys gofyniad cyffredin, yn cwmpasu pob dysgwr, sy'n rhoi dyletswydd ar ysgolion i ddarparu cwricwlwm cynhwysol a fydd yn cynnig cyfleoedd i bob dysgwr i gyflawni yn yr ysgol. Hefyd, mae'r fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnig nifer o gyfleoedd i ddisgyblion i ystyried a thrafod agweddau o gydraddoldeb.

Y Llwybrau Dysgu 14-19

Nod y Llwybrau Dysgu 14-19 yw trawsnewid cyfleoedd pob person ifanc. Gwneir hyn drwy ymestyn hawl a hyblygrwydd, sicrhau llwybrau dysgu wedi'u teilwrio'n unigol sy'n diwallu anghenion dysgwyr a darparu cyfleoedd a phrofiadau mwy cyfoethog a fydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer bywyd a gwaith.

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni drwy'r llwybrau dysgu 14-19 yw bod pob unigolyn rhwng 14 a 19 oed yn cael llwybr dysgu unigol gyda'r opsiwn sy'n gweddu orau i'w ddiddordebau, gallu a'i arddulliau dysgu, a'r cymorth sy'n ofynnol i sicrhau y gall oresgyn rhwystrau rhag dysgu.

Bydd hyn yn ei dro:

- yn lleihau'r nifer o bobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn heb unrhyw gymwysterau;
- yn cynnwys presenoldeb, yn lleihau'r nifer o waharddiadau ac yn gwella'r cyfraddau cadw;
- yn rhoi ffocws positif ar gyflawni lle mae llwyddiant pobl ifanc yn cael ei ddathlu;
- yn cydnabod y cymorth, a fydd yn amrywio dros amser, y mae ar ddysgwyr ei angen i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a sut y gall pob dysgwr gyrchu at gyfuniad unigryw o gymorth i ddiwallu ei anghenion unigol;
- yn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu at ystod eang o brofiadau a chyfleoedd a fydd yn help i ddatblygu sgiliau ehangach.

Ysgolion Bro

Gall ysgolion chwarae rhan bwysig yn helpu i adeiladu cymunedau cryf a gweithgar lle mae pobl o bob hil a chefnidir yn cael eu gwerthfawrogi. Mae cymunedau'n amrywio, ond mae'n debygol y bydd gweithgareddau ysgolion bro yn wasanaethau a fydd o werth neilltuol mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig. Efallai y gall ysgolion lleol weithio gyda'i gilydd mewn clystyrau, gyda phob ysgol yn datblygu gweithgareddau a gwasanaethau gwahanol. Bydd hyn yn galluogi pob disgybl, teulu a chymuned i gyrchu at amrywiaeth eang o wasanaethau ar draws sawl lleoliad.

Gwisg Ysgol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod rhai rhieni yn wynebu anawsterau ariannol wrth brynu gwisg ysgol i'w plant. I helpu i fynd i'r afael â hyn, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad gynllun grant gwisg ysgol i Gymru gyfan yn 2005-06 i helpu teuluoedd ar incwm isel gyda'r gost o brynu gwisg ysgol. Mae'r grant o £95 (wedi cynyddu o £85 yn 2005-06) ar gael eto yn 2006-07 i ddisgyblion sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi 2006 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion sy'n 11 oed ar ddechrau blwyddyn ysgol 2006-07 ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Gweinyddir y cynllun ar ran Llywodraeth y Cynulliad gan yr awdurdodau addysg lleol a dylid gwneud cais iddynt hwy am y grant.

Sgiliau Sylfaenol

Mae ail strategaeth sgiliau sylfaenol genedlaethol Cymru i bob oedran, a lansiwyd ym mis Ebrill 2005, yn darparu cyfle cyfartal i'r holl blant ac oedolion y mae angen iddynt wella eu sgiliau

llythrennedd a rhifedd. Amcanion y strategaeth yw y dylai pob plentyn ifanc fod yn barod i ddysgu pan fydd yn dechrau yn yr ysgol, y dylai'r nifer o blant sy'n gadael yr ysgol gynradd yn dal i gael trafferthion i ddarllen, ysgrifennu a defnyddio rhif gael ei ostwng ymhellach, y dylai llai o bobl ifanc adael addysg orfodol a hwythau'n cael anhawster gyda sgiliau sylfaenol, ac y dylid lleihau'r nifer o oedolion sydd â sgiliau sylfaenol gwael yn sylweddol. Diben y strategaeth yw codi ymwybyddiaeth, datblygu syniadau newydd a chryfhau'r gallu i fynd i'r afael â diffygion sgiliau, gan ychwanegu at ddysgu prif ffrwd ond nid ei ddisodli. Mae ystod eang o ddarpariaeth wedi cael ei sefydlu, ac fe'i rhoddir ar waith yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Mae'r strategaeth hefyd yn cyllido nifer o brosiectau cymorth cenedlaethol sydd i gael eu targedu at grwpiau blaenoriaeth. Maent yn darparu ar gyfer y blynyddoedd cynnar, pobl ifanc, troseddwyr/cyn-droseddwyr, yr iaith Gymraeg, Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill/Saesneg fel iaith ychwanegol, grwpiau mewn perygl, ceiswyr gwaith, a datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon.

Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg

Yr ydym wedi gweithredu prosiectau peilot ar gyfer amryw o fodelau sy'n rhoi cyfleoedd i gyrchu at addysg cyfrwng Cymraeg neu i astudio rhagor o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau eraill i ddisgyblion nad aethant i'r sector cyfrwng Cymraeg yn dair neu'n bedair oed.

Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae hi'n sicrhau bod plant ag anableddau'n cael yr un cyfleoedd â phlant eraill gydol eu cyfnod yn yr ysgol? (WAQ49491)

Jane Davidson: Nid yw'r cyfrifoldeb am faterion anabledd wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru ond mae'n aros gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Yr adran honno sydd â'r cyfrifoldeb pennaf o hyd am weithredu Deddfau Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a 2005 yn ogystal â'r darpariaethau anabledd sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth wrth iddi gyflawni ei phrif swyddogaeth a'i chyfrifoldebau.

Darparwyd canllawiau i AALLau ac ysgolion ar gyflawni eu cyfrifoldebau o dan y dyletswyddau cynllunio. Mae gwaith cyfalaf i wella hygyrchedd adeileddol ysgolion yng Nghymru yn ddefnydd cymwys o bob ffrwd gyllido sydd ar gael i'r awdurdodau lleol. Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu pryd i wneud buddsoddiadau cyfalaf, ymhle a natur y buddsoddiad, yn unol ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

Dan y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl, a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, mae'n ofynnol i ysgolion lunio cynllun cydraddoldeb i bobl anabl ac i adrodd ar eu cynnydd yn flynyddol. Rhaid i'r cynllun gynnwys, ymysg pethau eraill, ddatganiad am y ffordd y mae pobl anabl wedi cyfrannu tuag at ddatblygu'r cynllun, nodi rhwystrau a helpu i flaenoriaethu'r camau gweithredu.

Bydd canllawiau pellach ar sut y mae'r dyletswyddau newydd sy'n deillio o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 yn cael eu cymhwyso i ysgolion, yn cynnwys hyrwyddo cydraddoldeb i bobl

anabl, yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Eleanor Burnham: Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gau'r bwlch perfformiad rhwng bechgyn a merched? (WAQ49492)

Jane Davidson: Blaenoriaeth Llywodraeth y Cynulliad yw mynd i'r afael â thangyflawni gan unrhyw ddisgyblion, waeth beth fo eu rhyw. Fodd bynnag, mae tystiolaeth dros gyfnod sylweddol fod merched yn gyffredinol yn perfformio'n well na bechgyn ar draws pob cyfnod allweddol. Mae'r bwlch ar ei fwyaf i'r Gymraeg a'r Saesneg ac ar ei leiaf i Fathemateg a Gwyddoniaeth. Mewn rhai pynciau mae'r bwlch yn cau gan fod perfformiad bechgyn wedi gwella mwy na chanlyniadau cyfatebol merched. Mae 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio fwyfwy ar, ymysg pethau eraill, dangyflawni cymharol bechgyn o'u cymharu â merched os ydym i gynnal gwelliannau yn safonau ein hysgolion. Fel cam cyntaf, yr ydym wedi rhoi'r dasg i Estyn o roi cyngor am strategaethau effeithiol sydd wedi cael eu defnyddio gan ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i gau'r bwlch cyrhaeddiad. Bydd y cyngor hwn yn ymgorffori ymarfer da i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol ei ddilyn.

Eleanor Burnham: Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i gynyddu bri cyrsiau addysgol galwedigaethol? (WAQ49493)

Jane Davidson: Mae llawer o gyrsiau galwedigaethol yn uchel eu bri, er enghraifft, cyrsiau proffesiynol ar lefel prifysgol. Nid yw hynny'n wir bob amser am gyrsiau galwedigaethol eraill, fodd bynnag, ac yr wyf yn mynd i'r afael â hynny mewn sawl ffordd. Penodais hyrwyddwr sgiliau galwedigaethol yn 2005 yn benodol i weithio gyda chyflogwyr a darparwyr dysgu i godi proffil dysgu galwedigaethol ac i ddynodi meysydd i'w gwella. Edrychaf ymlaen at gael ei adroddiad terfynol yn fuan. Mae cymhwyster bagloriaeth Cymru wedi ei gynllunio fel ei fod yn cynnwys opsiynau galwedigaethol ar sail gydradd ag opsiynau academiaidd a bydd ei lwyddiant yn rhoi ysgogiad pellach i'r llwybrau dysgu hyn, fel y gwelwyd eisoes wrth i'r nifer o gymwysterau sgiliau allweddol a enillir yng Nghymru gynyddu'n gyflym. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos hefyd gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar brosiect mawr i ddiwygio cymwysterau galwedigaethol i'w gwneud yn fwy deniadol a pherthnasol i anghenion cyflogwyr. Ymysg pethau eraill, mae hyn yn cynnwys diwygio'r safonau galwedigaethol cenedlaethol sy'n sail i gymwysterau galwedigaethol, a datblygu strategaethau cymwysterau sector gan gynghorau sgiliau sector. Fel y pwysleisiwyd yn ddiweddar yn adolygiad sgiliau Leitch, mae gan gynghorau sgiliau sector rôl dyngedfennol yn sicrhau bod dysgu galwedigaethol yn diwallu anghenion cyflogwyr. Yn y ffordd honno, bydd dysgu galwedigaethol yn galluogi unigolion i wireddu eu huchelgeisiau gyrfa a thrwy hynny bydd yn cael mwy o fri.

John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno Bagloriaeth

Jane Davidson: Ar ôl i beilot ôl-16 cymhwyster bagloriaeth Cymru (y fagloriaeth) gael gwerthusiad allanol positif, cyhoeddais ym mis Hydref y llynedd y byddai’r fagloriaeth yn cael ei chyflwyno’n raddol ar y lefel ganolradd ac uwch mewn dysgu ôl-16. Gwahoddwyd ceisiadau i gymryd rhan yn y garfan gyflwyno gyntaf, o fis Medi 2007, ym mis Tachwedd.

Cafodd y ceisiadau eu hystyried gan banel yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru ac, ar 13 Chwefror, cyhoeddais y byddai’r fagloriaeth ar gael i ddysgwyr mewn 43 o ysgolion, colegau AB a ddarparwyr hyfforddiant ychwanegol ar draws Cymru yng nghanm cyntaf cyflwyno’r fagloriaeth, yn ychwanegol at y 31 o ganolfannau peilot gwreiddiol. Bydd hyd at 3,790 o fyfyrwyr newydd yn gallu cymryd rhan yn y fagloriaeth ac elwa o’r wybodaeth, y sgiliau a’r profiadau y mae’n eu cynnig o fis Medi 2007.

Gyda’r garfan newydd hon o ddarparwyr, bydd y fagloriaeth ar gael yn awr ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Yr ydym yn creu cyfleoedd dysgu sy’n gweddu i anghenion cyflogwyr, addysg uwch a’n cymunedau ac yn gwella sgiliau ein gweithlu ar gyfer y dyfodol yr un pryd.

Un agwedd o’r cyflwyno sy’n neilltuol o galonogol yw bod tri chais consortiwm wedi cael eu cymeradwyo, yn cynnwys un gan rwydwaith ardal leol 14-19 Casnewydd sy’n cynnwys yr holl ysgolion uwchradd yn ardal Casnewydd. Mae ceisiadau consortiwm yn ôl eu natur yn golygu dull gweithredu cydgysylltiedig, sy’n golygu defnydd mwy effeithiol o adnoddau i ddarparwyr a dewis cwricwlaidd ehangach i ddysgwyr.

Yr ydym eisoes yn bwrw ymlaen yn dda tuag at ein targed o gael 25 y cant o fyfyrwyr ôl-16 yn cymryd rhan yn y fagloriaeth erbyn 2010. Bydd ceisiadau ar gyfer yr ail garfan gyflwyno yn cael eu gwahodd tua diwedd y gwanwyn/yn gynnar yn yr haf.

Dyma’r rhestr lawn o ddarparwyr a fydd yn cyflwyno’r fagloriaeth ar y lefel uwch a’r lefel ganolradd mewn darpariaeth ôl-16 o fis Medi 2007:

Enw’r ganolfan	AALI
Ysgol Syr Thomas Jones Amlwch (Consortiwm Cynnal)	Ynys Môn
Ysgol Uwchradd Caergybi (Consortiwm Cynnal)	Ynys Môn
Ysgol Gyfun Llangefni (Consortiwm Cynnal)	Ynys Môn
Ysgol David Hughes (Consortiwm Cynnal)	Ynys Môn
Ysgol Uwchradd Bodedern (Consortiwm Cynnal)	Ynys Môn
Coleg Gwent- Glynebwy	Blaenau Gwent

Coleg Pen-y-bont	Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gyfun Bryntirion	Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gyfun Pencoed	Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gyfun Babyddol yr Archesgob McGrath	Pen-y-bont ar Ogwr
Coleg Gwent- Crosskeys	Caerffili
Ysgol Lewis Pengam	Caerffili
Ysgol Gyfun y Merched Lewis	Caerffili
Ysgol Gyfun Gymunedol St Cenydd	Caerffili
Y Coleg Ystrad Mynach	Caerffili
Ysgol Uwchradd Cantonian	Caerdydd
Ysgol Uwchradd Cathays	Caerdydd
Coleg Glan Hafren	Caerdydd
Coleg Pabyddol St David's	Caerdydd
Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr	Caerdydd
Coleg Sir Gâr	Sir Gaerfyrddin
Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth	Sir Gaerfyrddin
Ysgol Tregib	Sir Gaerfyrddin
Ysgol Y Strade	Sir Gaerfyrddin
Ysgol Penglais	Ceredigion
Hyfforddiant Gogledd Cymru Cyf	Conwy
Ysgol Bryn Eliau	Conwy
Coleg Llandrillo	Conwy
Ysgol Uwchradd Prestatyn	Sir Ddinbych

Ysgol Uwchradd y Rhyl	Sir Ddinbych
Ysgol Brynhyfryd	Sir Ddinbych
Ysgol Glan Clwyd	Sir Ddinbych
Ysgol Alun, yr Wyddgrug	Sir y Fflint
Coleg Glannau Dyfrdwy	Sir y Fflint
Coleg Meirion Dwyfor	Gwynedd
Coleg Menai	Gwynedd
Ysgol Dyffryn Nantlle (Consortiwm Cynnal)	Gwynedd
Ysgol Syr Hugh Owen (Consortiwm Cynnal)	Gwynedd
Ysgol Uwchradd Cyfarthfa	Merthyr Tudful
Coleg Merthyr Tudful	Merthyr Tudful
Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre	Merthyr Tudful
Coleg Gwent- Brynbuga	Sir Fynwy
Coleg Castell-nedd Port Talbot	Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Gyfun Bassaleg (Casnewydd 14-19 LAN)	Casnewydd
Ysgol Gyfun y Betws (Casnewydd 14-19 LAN)	Casnewydd
Ysgol Gyfun Caerllion (Casnewydd 14-19 LAN)	Casnewydd
Coleg Gwent - Casnewydd	Casnewydd
Ysgol Gyfun Dyffryn (Newport 14-19 LAN)	Casnewydd
Ysgol Gyfun Hartridge (Newport 14-19 LAN)	Casnewydd
Ysgol Gyfun Lliswerry (Newport 14-19 LAN)	Casnewydd
Ysgol Gyfun St Josephs (Newport 14-19 LAN)	Casnewydd
Ysgol Gyfun St Julians (Newport 14-19 LAN)	Casnewydd

Coleg Sir Benfro	Sir Benfro
Ysgol Preseli	Sir Benfro
Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt	Powys
Coleg Powys – Aberhonddu	Powys
Ysgol Uwchradd Gwernyfed	Powys
Ysgol Gyfun Coedylan (Consortiwm Pontypridd)	RhCT
Ysgol Uwchradd Hawthorn (Consortiwm Pontypridd)	RhCT
Cardinal Newman (Consortiwm Pontypridd)	RhCT
Coleg Morgannwg – Pontypridd	RhCT
* Coleg Cymunedol Tonypandy	RhCT
Ysgol Gyfun Treorci	RhCT
Ysgol Sir Gymunedol y Porth	RhCT
Ysgol Gyfun Babyddol yr Esgob Vaughan	Abertawe
Ysgol Tre-gwyr	Abertawe
Sporttrain	Abertawe
Coleg Abertawe	Abertawe
Ysgol Gyfun Gwyr	Abertawe
Coleg Gwent – Pont-y-pwl	Tor-faen
Ysgol Uwchradd Tyllgoed	Tor-faen
Ysgol Uwchradd Babyddol St Alban's	Tor-faen
Coleg y Barri	Bro Morgannwg
Ysgol Gyfun y Barri	Bro Morgannwg
Ysgol Gyfun y Bont-faen	Bro Morgannwg

Ysgol St Cyres	Bro Morgannwg
Ysgol Gyfun Bro Morgannwg	Bro Morgannwg
Ysgol Morgan Llwyd	Wreccsam
Ysgol Rhiwabon	Wreccsam

* Bydd Coleg Cymunedol Tonypandy yn dechrau darparu’r fagloriaeth ôl-16 o fis Medi 2008.

John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd gyda pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella sgiliau sylfaenol yng Nghymru? (WAQ49495)

Jane Davidson: Lansiais yr ail strategaeth sgiliau sylfaenol i Gymru, ‘Geiriau’n Galw: Rhifau’n Cyfri’, ym mis Ebrill 2005 gyda buddsoddiad o £40 miliwn dros bum mlynedd. Mae’n cael ei gweithredu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yng Nghymru. O ganlyniad i arolwg llinell sylfaen o sgiliau sylfaenol ymysg oedolion yng Nghymru, gosodasom dargedau, erbyn 2010, y bydd 80 y cant o oedolion o oedran gweithio wedi sicrhau sgiliau llythrennedd lefel 1 ac y bydd gan 55 y cant sgiliau rhifedd lefel 1.

Mae ein dull gweithredu i bob oedran yn cydnabod y bydd ymyrryd ar adegau allweddol yn y cylch dysgu gydol oes yn cael effaith wirioneddol a pharhaol ar lefelau sgiliau. Yr ydym wedi comisiynu gwerthusiad cynhwysfawr o’r strategaeth. Mae hwnnw ar y gweill ar hyn o bryd a bydd yn adrodd yn llawn yn 2009. Yn y cyfamser, yr wyf yn monitro’r effaith y mae’r ystod eang o fesurau yn y strategaeth yn ei chael.

Er enghraifft, cymerodd dros 10,000 o rieni a phlant ran mewn rhaglenni ‘Iaith a Chwarae’ a ‘Rhif a Chwarae’ y llynedd, a oedd yn fwy na’r targed. Cymerodd dros 5,000 o rieni a phlant ran hefyd mewn rhaglenni llythrennedd a rhifedd i deuluoedd.

Mae’r nod ansawdd sgiliau sylfaenol yn cael ei ddyfarnu i ysgolion sy’n gwneud cynnydd sylweddol yn codi safonau llythrennedd a rhifedd. Erbyn hyn mae wedi cael ei ddyfarnu i 95 y cant o ysgolion cynradd yng Nghymru a 94 y cant o ysgolion uwchradd.

I oedolion, mae’r nod ansawdd ôl-16 yw elfen bwysig o’r ddarpariaeth. Disgwylir i ddarparwyr hyfforddiant sgiliau sylfaenol i oedolion ennill y nod ansawdd sgiliau sylfaenol fel safon ofynnol i sicrhau bod ansawdd addysg yng Nghymru yn bodloni ein gofynion manwl. Mae 86 o ddarparwyr yn meddu ar y nod ansawdd ôl-16 ar hyn o bryd.

Mae rhaglen o grantiau ymyrryd strategol yn darparu’r cyllid i awdurdodau addysg lleol i wella’r safonau sgiliau sylfaenol yn eu hardal. Ar hyn o bryd mae naw mil o ddisgyblion yn cael cymorth ychwanegol drwy raglenni dal i fyny mewn ysgolion o ganlyniad i hynny.

Mae ein cynllun arloesol addewid y cyflogwr yn darparu ar gyfer hyfforddiant sgiliau sylfaenol yn y gweithle. Eisoed mae dros 200 o gyflogwyr yng Nghymru wedi ymrwymo i'r addewid, gan ddangos eu bod yn ymrwymo i helpu'r aelodau hynny o'u gweithlu sydd â sgiliau sylfaenol gwael. Yr wyf yn falch iawn bod yr Arglwydd Leitch wedi cydio yn y cysyniad hwn yn ei adroddiad ar sgiliau yn y Deyrnas Unedig yn ddiweddar.

Yr ydym wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth drwy gyfres o ddulliau gweithredu llawn dychymyg, rhai ohonynt yn ymgyrchoedd uchel eu proffil yn y cyfryngau sydd wedi ennyn diddordeb oedolion a phlant fel ei gilydd. Yn ddiweddar, lansiwyd y cynllun diweddaraf i ysgolion cynradd gennym, 'Darllenwch Filiwn o Eiriau yng Nghymru'.

Os ydym yn ysgogi diddordeb, rhaid inni allu diwallu'r galw. Mae sicrhau bod athrawon yn cael eu hyfforddi'n dda i gyflwyno sgiliau sylfaenol yn hanfodol ac yn awr gallwn gynnig cwrs sgiliau sylfaenol achrededig lefel 3 i athrawon a chynorthwyr yn y sector ôl-16 yn ogystal â diploma ôl-radd.

Yn gyffredinol, yr wyf yn falch iawn fod y strategaeth yn dod â manteision sylweddol i ddysgwyr yng Nghymru.

Owen John Thomas: Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i roi i fanteision darparu addysg feithrin mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ49496) [W]

Jane Davidson: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sicrhau bod addysg feithrin hanner amser yn ystod y tymor ar gael i blant tair oed yn rhad ac am ddim ledled Cymru. Bydd menter Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant sydd o ansawdd yn rhad ac am ddim i blant dwy oed yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu ar yr ardaloedd hyn. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r rhain yn gorgyffwrdd ag ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Carl Sargeant: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint dosbarthiadau babanod a dosbarthiadau iau yng Nghymru? (WAQ49497)

Jane Davidson: Mae llwyddiant parhaus ysgolion ac AALau yn sicrhau bod pob dosbarth babanod a dosbarth iau yng Nghymru fwy neu lai â 30 neu lai o ddisgyblion yn rhywbeth y gallwn i gyd ymfalchïo ynddo. Ar ôl cymryd yr eithriadau a ganiateir gan y gyfraith i ystyriaeth, dangosai Cyfrif Maint Dosbarthiadau mis Medi 2006 mai dim ond pedwar o'r 4,007 o ddosbarthiadau babanod yng Nghymru oedd â mwy na 30 o ddisgyblion. Yn yr un modd, ar ôl diystyru'r eithriadau, dim ond 58 allan o gyfanswm o 5,471 o ddosbarthiadau iau oedd â mwy na 30 o ddisgyblion. Mae hyn yn welliant gwirioneddol o'i gymharu â'r sefyllfa ym 1999 pan oedd 21 y cant o'r holl ddisgyblion cynradd mewn dosbarthiadau o fwy na 30 o ddisgyblion ac yr oedd bron i 5,000 o ddisgyblion mewn dosbarthiadau mawr iawn o 36 neu fwy.

Carl Sargeant: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr athrawon a'r cynorthwywyr dosbarth yng Nghymru? (WAQ49498)

Jane Davidson: Yr oedd y nifer o athrawon mewn swydd gydag AALLau ym mis Ionawr 2006 yn cyfateb i 29,783 o athrawon amser llawn o'i gymharu â 28,636 ym mis Ionawr 1999 (cynnydd o 1,147 neu 4 y cant).

Cynyddodd y nifer o gynorthwywyr dysgu mewn ysgolion a gynhelir o 5,475 (cyfwerth ag amser llawn) ym mis Ionawr 1999 i 10,225 ym mis Ionawr 2006 (cynnydd o 4,750 neu 87 y cant).

Owen John Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd gwersi cerddoriaeth yn ein hysgolion? (WAQ49499) [W]

Jane Davidson: Mae cerddoriaeth yn bwnc statudol yn y cwricwlwm cenedlaethol i ddisgyblion pump i 14 oed. Mae'r rhaglen astudio yng ngorchymyn cerddoriaeth y cwricwlwm cenedlaethol yn nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y dylai disgyblion eu datblygu. O fewn y rhaglen hon ceir yr elfennau perfformio, cyfansoddi a gwerthuso cerddoriaeth sy'n hanfodol.

Ar hyn o bryd mae AADGOS yn ymgynghori ynglyn â chwricwlwm ysgol diwygiedig i'w weithredu o Fedi 2008. Mae'r cynigion ar gyfer cerddoriaeth yn rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau perfformio a chyfansoddi. Mae gwersi cerddoriaeth yn elfen bwysig o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru a byddant yn parhau i fod.

Peter Black: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth wrth drefnu addysg a hyfforddiant ôl-16 ar lefel leol? (WAQ49500)

Jane Davidson: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sefydlu cydweithredu effeithiol gyda a rhwng rhanddeiliaid lleol i ddarparu ystod eang o gyfleoedd dysgu a dewisiadau gyrfa i bob person ifanc.

Mae 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' yn galw am fwrw ymlaen â rhagor o fraenaru daearyddol, bwriad sy'n cael ei egluro yng nghynllun gweithredu'r Llywybrau Dysgu 14-19 a'r cynllun gweithredu yn 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni ar draws Ffiniau'. Dywed y naill a'r llall o'r rhain y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i gwblhau adolygiad braenaru daearyddol o'r ddarpariaeth ôl-16 ym mhob ardal erbyn 2010.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol rolau strategol a dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol o ran addysg a hyfforddiant ôl-16. Dyna pam y mae adolygiadau braenaru

daearyddol, sef y cam cyntaf yn yr hyn a all fod efallai yn broses hwy a fydd yn cynnwys ymgynghori statudol a chynigion ail-gyflunio, i gael eu symud ymlaen fel prosiectau partneriaeth rhwng AADGOS a'r awdurdodau lleol.

Mae'r cynlluniau i hyrwyddo gweithio drwy bartneriaeth wrth drefnu addysg a hyfforddiant ôl-16 ar lefel leol wedi cael eu llywio gan ganlyniadau'r ymgynghori am ddirprwyo cynigion i drefnu'r ddarpariaeth 16 i 19 i'r awdurdodau lleol (2006). Cyhoeddwyd y cynlluniau hyn gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 18 Hydref 2006.

Cynlluniau ar gyfer Braenaru Daearyddol yn y dyfodol

Mae AADGOS wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â rhagor o adolygiadau braenaru daearyddol yn 2007-08 fel rhan o'r ymrwymiad i gwblhau adolygiadau braenaru daearyddol ym mhob ardal erbyn 2010. Cynhelir yr adolygiadau hyn mewn partneriaeth lawn â'r awdurdodau lleol.

Bydd swyddogion AADGOS yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol dros y misoedd i ddod i drafod manteision posibl bwrw ymlaen ag adolygiadau braenaru daearyddol yn eu hardaloedd erbyn 2007.

Rôl strategol AADGOS, wrth hyrwyddo gweithio drwy bartneriaeth wrth drefnu addysg a hyfforddiant ôl-16 ar lefel leol, yw sicrhau bod ystyriaeth gytbwys yn cael ei rhoi i:

- y flaenoriaeth sy'n gysylltiedig â rhoi amcanion polisi cenedlaethol ar waith;
- materion strategol sy'n effeithio ar addysg a hyfforddiant (e.e. newid demograffig);
- bod ystod eang o opsiynau posibl o ran newidiadau i'r dyfodol yn cael ei hystyried yn agored; a
- bod tystiolaeth annibynnol a chadarn yn cael ei chasglu i helpu i sefydlu costau a manteision a gwerth am arian cymharol gwahanol gynigion i ddatblygu rhwydweithiau.

Mae AADGOS wrthi ar hyn o bryd yn datblygu canllawiau i awdurdodau lleol i'w defnyddio wrth fwrw ymlaen ag adolygiadau braenaru daearyddol yn y dyfodol a bydd yn cyhoeddi'r rhain yn ddiweddarach yn y gwanwyn.

Yn fwy cyffredinol, mae AADGOS yn dal i gynorthwyo rhwydweithiau 14-19 i ddatblygu llwybrau dysgu i ddysgwyr ar draws Cymru. Eleni, mae rhwydweithiau'n cael eu cyllido gyda dyraniad o arian refeniw a chyfalaf ynghyd â chyfle iddynt i gyrchu at arian refeniw a chyfalaf ychwanegol ar gyfer prosiectau penodol yn gysylltiedig â datblygu'r rhwydwaith dysgu i bobl ifanc 14 i 19 oed.

Hefyd, dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cynulliad wedi cefnogi datblygu strategaethau cymunedol ar lefel leol, sy'n cynnwys ystyried materion dysgu gydol oes a cheisio hyrwyddo cydlynid a chydweithredu. Gan edrych ymlaen, dywedai ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar i adolygiad Beecham y bydd cefnogaeth i ddatblygu byrddau gwasanaethau lleol ym mhob

awdurdod lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd peilot i fireinio a phrofi'r cynlluniau wrth iddynt gael eu datblygu.

Mae cydweithredu ôl-16 hefyd yn cael ei hyrwyddo drwy'r system gynllunio. Er enghraifft, mae'n ofynnol yn ôl y canllawiau ffurfiol ynghylch dysgu cymunedol i oedolion ac AB fod gwybodaeth yn cael ei darparu am gydweithredu ac mae darparwyr yn cael eu hasesu ac yn cael adborth am y mater hwn fel rhan o gylch cynllunio blynyddol y darparwyr.

Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y consortia cymunedol ar gyfer addysg a hyfforddiant? (WAQ49501)

Jane Davidson: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu dod â'r gofynion ffurfiol am gonsortia cymunedol ar gyfer addysg a hyfforddiant i ben yn 2007-08.

Argymhellodd adroddiad y Dirprwy Weinidog 'Llwybrau Dysgu 14-19 yng Nghymru' (2005) y:

'dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddyfodol CCETau. Gallai hyn achosi iddynt gael eu dileu'n gyfan gwbl neu ostyngiad yn eu nifer.'

Yr oedd hefyd yn awgrymu'r posibilrwydd o CCETau isranbarthol.

Yr oedd yr ymatebion i'r cyhoeddiad dilynol 'Dirprwyo Cynigion ar gyfer Trefnu Darpariaeth 16-19 i Awdurdodau Lleol 2006' yn cefnogi'r angen am newid yn gryf, a chyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at rôl y CCETau a'r rhwydweithiau 14-19.

Felly, yr ydym wedi penderfynu dod â'n gofynion ffurfiol am CCETau a'r gefnogaeth gysylltiol i ben yn ystod 2007-08. Bydd y swyddogion yn cysylltu â'r CCETau i roi rhagor o fanylion am y prosesau dan sylw. Bydd mewnbwn lleol i ddatblygiadau addysg a hyfforddiant yn cael ei gynnal drwy bartneriaethau eraill, yn cynnwys y rhwydweithiau dysgu 14-19 a'r byrddau gwasanaethau lleol sydd ar fin cael eu sefydlu. Bydd ymatebion Llywodraeth y Cynulliad i adolygiad Leitch yn hydref 2007 yn ystyried yr argymhelliad a wnaed gan yr adolygiad o ran byrddau cyflogaeth a sgiliau lleol.

Ann Jones: Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch darparu hyfforddiant gwefuslefaru? (WAQ49502)

Jane Davidson: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau'n benodol gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hyd yma ynglyn â darparu hyfforddiant gwefuslefaru.

Yr wyf, fodd bynnag, yn ymwybodol bod cynrychiolwyr o Gyngor Cymru dros Bobl Fyddar wedi cwrdd â swyddogion o Gangen Strategaeth a Datblygu Iechyd Cymunedol y Cynulliad fis Ebrill y

llynedd a bod gwefuslefaru yn un mater a drafodwyd. Ar hyn o bryd nid oes gennyf ragor o wybodaeth am y mater hwn, ond byddaf yn gwneud ymholiadau pellach ac yn ysgrifennu atoch yn fuan.

Yn fwy cyffredinol, fel yr ydych yn ymwybodol yr wyf yn siwr, mae ymddiriedolaethau GIG a BILlau wedi cymryd camau i gael gwared â'r rhwystrau rhag cyfathrebu i bobl sy'n fyddar ac yn drwm eu clyw. Mae hyn yn cynnwys cynnal archwiliadau mynediad i bobl anabl a darparu cymorth cyfathrebu sy'n cynnwys darparu dehongli drwy Iaith Arwyddion Prydain. Mae'r Cynulliad hefyd, ar y cyd â Dyfodol BSL o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn cyllido cynllun i gynyddu'r nifer o ddehonglwyr BSL yng Nghymru gyda chyfanswm o £2.7 miliwn dros gyfnod o dair blynedd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos hefyd gydag Uned Cydraddoldeb GIG Cymru i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac i wella mynediad at gymorth cyfathrebu ar draws Cymru.

Ann Jones: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith cynlluniau cymhellion ariannol a gyllidir gan Lywodraeth y Cynulliad ar annog pobl ifanc 16 – 18 oed i aros ym myd addysg? (WAQ49503)

Jane Davidson: 2006-07 yw'r drydedd flwyddyn, a blwyddyn olaf, cyflwyno'r lwfans cynhaliaeth addysg yng Nghymru. Mae dros 29,000 o bobl ifanc o gefndiroedd tlotach wedi cael eu cymeradwyo i gael y lwfans eleni ac mae 82 y cant yn cael y lwfans wythnosol uchaf o £30.

Mae tystiolaeth o'r cynlluniau peilot cynharaf yn dangos yn glir bod y lwfans yn cynyddu cyfranogiad ac yn gwella presenoldeb. Cafodd hyn ei atgyfnerthu gan arolwg o ysgolion a cholegau yng Nghymru sy'n cymryd rhan. Ymgymerasom â'r arolwg ar ôl blwyddyn weithredol gyntaf y lwfans (2004-05).

Gan fod y cynllun bellach wedi cael ei ymestyn i gynnwys pobl ifanc 16, 17 a 18 oed, byddwn yn gwneud gwerthusiad llawn o'i effaith ar y grwp hwn o bobl ifanc. Disgwyliaf i'r gwaith gwerthuso hwn ddechrau yn gynnar yn yr haf.

Karen Sinclair: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth i addysg uwch yng ngogledd-ddwyrain Cymru? (WAQ49504)

Jane Davidson: Dyfarnwyd £5.3 miliwn i Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru o gronfa datblygu strategol y Cyngor Cyllido Addysg Uwch dros dair blynedd i gryfhau ei sefyllfa fel sefydliad addysg uwch Cymru yn y Gogledd-ddwyrain. Bydd y buddsoddiad yn help i'r Athrofa yn ei hymdrechion i ennill pwerau i ddyfarnu graddau ei hun—ac i sicrhau'r teitl prifysgol yn y dyfodol. Bydd y cyllid yn hybu adnoddau dynol NEWI, yn cynnwys cyfres o weithgareddau datblygu staff, a bydd yn gymorth tuag at adeilad technoleg dylunio newydd i wella'r adnoddau dysgu. Bydd yr

adeilad yn dod â pheirianeg, dylunio a chyfrifiadureg ynghyd, gan ailwampio'r ddwy adran a'u cwricwla yn y broses. Yr oedd y grant rheolaidd i'r sefydliad ym mlwyddyn ariannol 2006-07 oddeutu £14.5 miliwn.

Karen Sinclair: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i annog pobl ifanc i barhau â'u haddysg ôl-16? (WAQ49505)

Jane Davidson: Ar 21 Rhagfyr 2006 cyhoeddais fod y nifer o bobl ifanc 16 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig yng Nghymru wedi cyrraedd y lefel isaf erioed.

Mae ffigurau newydd am 2006 yn dangos y bu gostyngiad yn y nifer o ddisgyblion un ar bymtheg oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig o 832 i 806.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod y gyfundrefn addysg yn symud i'r cyfeiriad iawn. Mae ennill o leiaf un cymhwyster yn hanfodol er mwyn rhoi cyfle o well bywyd, swydd sy'n talu'n well a mwy o sicrwydd i'r dyfodol i bobl ifanc.

Yr ydym yn dal yn benderfynol—fel y nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'—na ddylai unrhyw ddisgybl adael addysg heb gymhwyster cymeradwy erbyn 2010.

Mae'r Llwybrau Dysgu 14-19 yn nodi elfennau sy'n hanfodol i ennyn diddordeb a symbylu pobl ifanc i gymryd rhan mewn dysgu gydol oes. Yr hyn yr ydym am ei gynnig yw ystod o ddarpariaethau sy'n hanfodol er mwyn darparu'r llwybrau dysgu, er enghraifft:

- cynyddu'r gyfran o bobl ifanc 16 oed sydd â chymwysterau lefel 2 a'r gyfran sydd â chymwysterau lefel 3 yn 19 oed;
- lleihau'r nifer o bobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn heb unrhyw gymwysterau;
- gwella'r gyfran o bobl ifanc 16 oed sy'n mynd ymlaen i ddysgu pellach, un ai amser llawn neu seiliedig ar waith;
- lleihau'r nifer o bobl ifanc 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Drwy annog rhagor o bobl ifanc i wireddu eu potensial byddant wedi cael eu paratoi'n well ar gyfer byd gwaith a byddant yn dod yn ddinasyddion mwy gwybodus a gweithgar. Rhaid inni ennyn eu diddordeb a'u symbylu i gyrraedd y lefel gyflawni uchaf bosibl, sydd hefyd yn cynyddu potensial Cymru.

Mewn llawer o achosion gallai fod yn fwy buddiol i'r person ifanc ddilyn yr opsiynau galwedigaethol neu seiliedig ar waith yn hytrach na llwybr academiaidd pur.

Yn y cynllun gweithredu 14-19 yr ydym wedi gosod targedau clir i'n hunain ar hyn—erbyn Medi 2008 byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd wedi cael eu sefydlu i bobl ifanc i ymgymryd â dysgu seiliedig ar sgiliau a dysgu galwedigaethol.

Mae rhyngwyneb pwysig hefyd rhwng dysgu seiliedig ar waith a pholisi llwybrau dysgu 14-19 Llywodraeth y Cynulliad, sy'n ceisio sicrhau bod pobl ifanc o bob gallu yn gallu cyrchu at amrywiaeth llawer ehangach o opsiynau, yn cynnwys profiad gwaithganolog.

Yn 2006-07 yr oedd yr arian a oedd ar gael i'r rhwydweithiau 14-19 yn gyfanswm o £8.5 miliwn ar draws Cymru gyfan. Yr oedd yn cynnal datblygiad y gwaith yn ardaloedd y rhwydweithiau 14-19 yn bwrw ymlaen â rhwydweithiau dysgu sy'n cynnwys amryw o weithgareddau cydweithredol a fwriedir i ostwng y nifer o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau.

Mae'r cyllid yr wyf wedi ei ddarparu ar gyfer 2007/08 yn £32.5 miliwn, sy'n cynrychioli buddsoddiad sylweddol yn y llwybrau dysgu 14-19 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn allweddol i newid y patrwm gwariant ym mhob sefydliad dysgu partner a bydd yn help i sicrhau gwell cyflawniadau i'r dysgwyr i gyd.

Mae rôl yr anogwr dysgu hefyd yn ddatblygiad tyngedfennol i helpu i gadw pobl ifanc ym myd dysgu. Mae rôl yr anogwr dysgu yn allweddol er mwyn cefnogi'r dysgwr yn yr agweddau hynny o'r llwybr dysgu llawn sy'n berthnasol i ddysgu, ac mae'n canolbwyntio ar wneud yn fawr o allu'r person ifanc i ddysgu a'i symbyliad i aros ym myd dysgu er mwyn ennill cymwysterau.

Mae angen mwy o gymorth personol ar lawer o bobl ifanc hefyd i'w helpu i oresgyn rhwystrau rhag dysgu, i aros ym myd addysg ac i fanteisio ar gyfleoedd i ennill cymwysterau. Mae mynediad at gymorth personol yn un arall o elfennau allweddol y llwybrau dysgu.

Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw ystyriaethau o ran safon genedlaethol Gymreig ar gyfer dyddiadau gwyliau ysgol? (WAQ49515)

Jane Davidson: Yr AALLau a chyrrff llywodraethu ysgolion sy'n gyfrifol am bennu dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol dan adran 32 o Ddeddf Addysg 2002. Nid oes gofyniad statudol ar hyn o bryd ar i AALLau ymgynghori â'i gilydd ynghylch y mater hwn. Yr wyf yn ystyried pa un i gyflwyno newidiadau i'r rheoliadau i wneud safoni o'r fath yn ofynnol.

Nick Bourne: Yng nghyswllt ei chyfrifoldebau portffolio, sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu ymateb i gasgliadau adroddiad Unicef am les plant a osododd y DU yn olaf mewn rhestr o un ar hugain o wledydd datblygedig? (WAQ49540)

Jane Davidson: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu ystod o bolisiau a rhaglenni i gryfhau'r

gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae'r datganiad polisi strategol, 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', a gyhoeddais ym mis Hydref 2006 yn disgrifio'r camau gweithredu cyfredol ac arfaethedig yn fy mhortffolio. Byddaf yn ystyried a yw'r polisiâu a'r rhaglenni hyn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad UNICEF mewn perthynas â'm cyfrifoldebau i ac a oes angen gweithredu ymhellach.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Peter Black: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i neilltuo grantiau ar gyfer ffermwyr sy'n awyddus i dyfu cnydau ynni? (WAQ49171)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 6 Chwefror 2007.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Yr ydym eisoes yn darparu grantiau o dan y cynllun busnes ynni pren i annog sefydlu rhwydwaith o farchnadoedd tanwydd pren gwres a phwer cyfunedig ar raddfa fach i ganolig yng Nghymru. Mae bodolaeth y galw hwn am gynhyrchion biomas yn gymhelliad i ffermwyr i ystyried tyfu cnydau ynni.

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49229)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 8 Chwefror 2007.

Carwyn Jones: Gwariwyd £330,000 ar gynhyrchu cylchgrawn misol i ffermwyr, sy'n darparu gwybodaeth am amaethyddiaeth a materion gwledig, a mynychu nifer o sioeau amaethyddol ar draws Cymru.

Talwyd y gost hon gan yr Is-adran Gyfathrebu ganolog a byddaf yn ysgrifennu ymhellach pan fydd manylion unrhyw wariant adrannol ar gyhoeddusrwydd na chafodd ei gaffael yn ganolog gennyf.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed ar fusnes y Cynulliad yn 2006, ynghyd â chost pob ymweliad? (WAQ49231) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49228) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe'ch cyfeirïaf at yr atebion i WAQ49223 a WAQ49226.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad diweddar y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd? (WAQ49388)

Carwyn Jones: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu cyhoeddi'r adolygiad pwysig o wyddoniaeth newid yn yr hinsawdd gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd. Yn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 13 Chwefror 2007, gwnaed ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i weithredu ar newid yn yr hinsawdd yn glir gan y Prif Weinidog ac amlinellodd amryw o fesurau fydd yn cael eu symud ymlaen dros y misoedd nesaf.

Ddydd Iau 15 Chwefror 2007 byddaf yn lansio 'Ymateb i'n Hinsawdd sy'n Newid', ymgynghoriad ynghylch cynllun gweithredu ar gyfer addasu i newid yn yr hinsawdd. Dechrau'r broses o sicrhau ein bod yn addasu'n effeithiol i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru yw'r ymgynghoriad hwn.

Nick Bourne: Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i rhoi i ddefnyddio pŵer niwclear fel ffordd o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd? (WAQ49392)

Carwyn Jones: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae ei rhan yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd—ac mae lleihau gollyngiadau ty gwydr yn allweddol i hyn.

Yr ydym yn canolbwyntio ein sylw ar y meysydd y mae gennym gyfrifoldeb datganoledig amdanynt. Er enghraifft, yr wyf yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch newidiadau i bolisi cynllunio sy'n adlewyrchu ystyriaethau newid yn yr hinsawdd yn well yn y gyfundrefn gynllunio.

Mae polisi ynni ac asesu'r rôl y gallai pob math o gynhyrchu ynni ei chwarae o bwys canolog wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd map llwybr ynni Cymru, a gaiff ei gyhoeddi gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau yn fuan, yn nodi ein syniadau am y materion hyn ac yn dechrau mapio sut y gall Cymru drawsnewid ei hun i fod yn economi carbon isel, sy'n esiampl i eraill.

Alun Cairns: Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi adroddiad yr arolygydd am yr ymchwiliad cyhoeddus i garthu ar Helwick Bank? (WAQ49393)

Carwyn Jones: Yr wyf yn ymwybodol o'r diddordeb eithriadol yn adroddiad yr arolygydd, sy'n ganolog i'r broses o lunio barn y Llywodraeth am y cais i gael carthu ar Helwick Bank. Bydd y farn honno, ac adroddiad yr arolygydd, yn cael eu cyhoeddi cyn gynted ag sy'n gyson â rhoi ystyriaeth drylwyr i'r holl faterion dan sylw.

Jonathan Morgan: Pryd y gweithredwyd argymhelliad 38 trydydd adroddiad Arglwydd Nolan ar safonau mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ49402)

Jonathan Morgan: Wrth weithredu argymhelliad 38 trydydd adroddiad yr Arglwydd Nolan ar safonau mewn bywyd cyhoeddus, faint o wrthwynebiadau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu hystyried yn "sylweddol"? (WAQ49403)

Carwyn Jones: Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio ceisiadau cynllunio sy'n groes i'w cynllun datblygu ac y mae ganddynt fuddiant ynddynt i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, dan y cyfarwyddyd a roddwyd yng Nghylchlythyr 39/92 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1992. Felly yr oedd trefniadau eisoes yn bodoli i ymdrin ag argymhelliad 38 yr Arglwydd Nolan.

Gall unrhyw unigolyn, grwp neu sefydliad ofyn i Lywodraeth y Cynulliad ystyried galw unrhyw gais cynllunio i mewn—yn cynnwys y rheini lle mae gan awdurdod lleol fuddiant—lle mae'n codi materion sydd o bwys yn fwy eang nag yn lleol yn unig. Mae hyn yn cynnwys ceisiadau a allai achosi dadlau sylweddol y tu hwnt i'r gymdogaeth leol. Mae'r materion y dylid rhoi sylw iddynt wrth ystyried ceisiadau a alwyd i mewn wedi'u nodi ym mharagraff 4.12.1 ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Jonathan Morgan: Ar ba ddyddiad yr hysbysodd Cyngor Sir Caerdydd Lywodraeth y Cynulliad o'r cais cynllunio a gyflwynwyd ynghylch y datblygiad tir arfaethedig yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Manor Way, Caerdydd? (WAQ49405)

Carwyn Jones: Ar 4 Hydref 2005, cyflwynodd cyngor Caerdydd wybodaeth am gais i Lywodraeth y Cynulliad yn dilyn cais gan aelod o'r cyhoedd ar 27 Medi 2005 ar i'r Cynulliad ei alw i mewn. Yr oedd y cais yn cynnwys canolfan bêl-droed pump bob ochr gyda chaeau cysylltiol, pafiliwn a lle parcio. Ysgrifennodd y swyddogion at y cyngor ar 12 Hydref 2005 yn ei gynghori na fyddai'r Cynulliad yn galw'r cais i mewn.

Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch nifer y ceisiadau cynllunio ôl-weithredol? (WAQ49422)

Carwyn Jones: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol am y nifer o geisiadau cynllunio ôl-weithredol. Fodd bynnag, mae hwn yn un o nifer o faterion sy'n cael eu hystyried fel rhan o adolygiad o'r ffordd y mae'r system gorfodaeth gynllunio yn gweithio yng Nghymru.

Alun Cairns: Pa ganllawiau sydd yn eu lle mewn perthynas â'r amseroedd ymateb a ddisgwylir o ran apelïadau ynghylch taliadau cefnogi fferm? (WAQ49433)

Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 8 Chwefror 2007.

Carwyn Jones: Nodaf fy ymateb terfynol isod. Cyflwynwyd proses apêl ddau gam dan gynllun taliad sengl 2005. Nid oes terfynau ymateb ffurfiol gan y bydd yr amser a gymerir i ddod i benderfyniad yn dibynnu ar gymhlethdod yr achosion unigol yn ogystal â'r nifer o apeliadau a gyflwynir.

Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ei bolisïau ar etholaeth Dwyrain Abertawe? (WAQ49442)

Carwyn Jones: Megis rhannau eraill o Gymru, mae Dwyrain Abertawe wedi cael cymorth yn sgil amryw o bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cael eu rheoli gan Adran yr Amgylchedd, cynllunio a Chefn Gwlad.

Yn arbennig, mae Dwyrain Abertawe wedi elwa o waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar ardal cadwraeth arbennig Cors Crymlyn, sy'n safle cadwraeth natur allweddol o fewn yr etholaeth. Mae'r cyngor cefn gwlad, ar ran Llywodraeth y Cynulliad, wedi ymgymryd ag amryw o brosiectau natur a chadwraeth, yn cynnwys gwelliannau mynediad cyhoeddus i'r gronfa natur a sefydlu ymweliadau ysgol mewn partneriaeth â Chanolfan yr Amgylchedd, Abertawe.

Mae Dinas a Sir Abertawe wedi gwneud llawer iawn o waith rheoli cynefinoedd, gyda chymorth grant gan y cyngor cefn gwlad, ar warchodfa natur leol Cadle Heath. Yr oedd hyn yn golygu clirio prysgwydd a rheoli rhedyn er mwyn cadw'r rhostir trefol. Dechreuwyd gweithio hefyd ar warchodfa natur Bro Tawe i gael gwared â Jac y Neidiwr, planhigyn ymledol, ac i greu rhagor o ddwr agored.

Mae gwaith addysg amgylcheddol wedi mynd rhagddo mewn ysgolion ac ar safleoedd fel Cors Crymlyn, Kilvey Hill a Bro Tawe. Cafodd taflenni safle eu cynhyrchu ac mae teithiau tywys yn fodd i ddenu cyfranogiad ehangach o du'r cyhoedd ar y safleoedd hyn. Mae Forest School Play wedi cynnal cynlluniau chwarae ar Kilvey Hill yn y tair blynedd diwethaf. Deallaf fod gan Cadwch Gymru'n Daclus gofnodion am 19 o ysgolion yn etholaeth Dwyrain Abertawe sydd â gwobr efydd o leiaf o dan y cynllun eco-ysgolion.

Nick Bourne: Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i amddiffyn arfordir Cymru rhag erydiad? (WAQ49446)

Carwyn Jones: Yr awdurdodau lleol yw'r cyrff sy'n gyfrifol am erydu arfordirol a hwy sydd â'r pwerau angenrheidiol i wneud gwaith i amddiffyn eu hardaloedd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth grant i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo gyda chynlluniau gwarchod yr arfordir. Eleni, mae grant o £5.8 miliwn wedi cael ei ddarparu i gynorthwyo cynlluniau atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir yr awdurdodau lleol.

Mae'r Cynulliad hefyd yn rhoi arweiniad polisi ar faterion amddiffyn yr arfordir ac mae wedi annog pob awdurdod lleol morol i lunio grwpiau arfordirol ac i baratoi cynlluniau rheoli traethlin. Mae cynlluniau rheoli traethlin yn ddogfennau allweddol o ran sicrhau bod yr arfordir yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy, ac maent wedi cael eu cynhyrchu ar gyfer arfordir Cymru ar ei hyd. Bydd cynlluniau rheoli traethlin yn dod yn fwy a mwy pwysig yn y cyd-destun cynllunio i gyfeirio datblygu arfordirol oddi wrth ardaloedd bregus.

Gyda chymorth cyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, bydd y cynlluniau yn cael eu hadolygu dros y blynyddoedd nesaf i roi sylw i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol ac i sicrhau bod polisiâu yn y dyfodol yn caniatáu ar gyfer yr ansicrwydd. Yn sail i'r adolygiadau hyn mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i fapio ardaloedd lle mae perygl o erydu arfordirol yn fwy manwl.

Nick Bourne: Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? (WAQ49447)

Carwyn Jones: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido gwaith atal llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd ac yn darparu cymorth ariannol i awdurdodau lleol ar gyfer eu gwelliannau atal llifogydd. Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol yw'r prif awdurdodau gweithredol atal llifogydd sydd â'r pwerau angenrheidiol i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae gan y cyrff hyn raglen lawn o gynlluniau ar gyfer 2006/07 a'r blynyddoedd wedyn.

Yn y flwyddyn ariannol hon yr wyf wedi darparu £13.5 miliwn i Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer gwelliannau atal llifogydd ac yr wyf wedi cynyddu'r grantiau sydd ar gael i'r awdurdodau lleol i £5.8 miliwn. Hefyd, er 2001, mae cyfraddau grantiau'r awdurdodau lleol tuag at gynlluniau atal llifogydd wedi cynyddu o 25 y cant i 85 y cant yn gyffredinol ac i 100 y cant ar gyfer prosiectau mawr iawn.

Ar hyn o bryd mae arian grant o oddeutu £3.5 miliwn wedi cael ei gymeradwyo i gefnogi cynlluniau sydd ar y gweill gan yr awdurdodau lleol i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno cais am grant tuag at gynllun atal llifogydd mawr yn Nhywyn ac mae fy swyddogion hefyd wedi cynnal trafodaethau gyda Chyngor Sir Ceredigion am ei gynigion i wella'r amddiffynfeydd arfordirol yn y Borth ac Aberaeron yn sylweddol.

Yn ogystal â hyrwyddo a chodi gweithfeydd newydd, ymgwymerir â rhaglen o waith cynnal a chadw arferol bob blwyddyn i wneud yn siwr bod ein strwythur amddiffyn rhag llifogydd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod y perygl llifogydd yn cael ei reoli'n briodol. Mae gwasanaeth rhybuddio am lifogydd ar gael i'r rhan fwyaf o'r rhai yn y dalgylchoedd hyn y mae perygl iddynt gael llifogydd.

William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ailgylchu plastig yng Nghymru? (WAQ49451)

Carwyn Jones: Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn ailgylchu plastig erbyn hyn. Arweiniodd yr ymdrechion hyn at gasglu 8,362 tonnell fetrig o blastig i'w ailgylchu yn 2005-06.

Poteli yw'r rhan fwyaf o'r plastig sy'n cael ei ailgylchu. Gobeithir y bydd mathau eraill o blastig hefyd yn cael eu hailgylchu wrth i farchnadoedd ddatblygu iddynt ac wrth i'r dulliau casglu olygu bod modd eu casglu a'u didoli'n effeithlon.

Mae'r gwaith o ddatblygu marchnadoedd newydd i blastig eildro yn cael ei gefnogi drwy raglen weithredu'r cynllun gwastraff ac adnoddau a thrwy brosiect creu marchnadoedd Cymreig ar gyfer deunydd ailgylchu sy'n cael ei redeg gan Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae'r naill gorff a'r llall yn cael cymorth grant gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mae nifer o fusnesau sy'n ailgylchu plastig wedi cael cymorth gan Lywodraeth y Cynulliad dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn y sector amaethyddol mae cwmnïau sy'n casglu ffilm blastig—deunydd lapio silwair yn bennaf—oddi ar ffermydd ac yn ei ddarparu i ailbroseswyr iddo gael ei ailgylchu.

Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu graddfeydd effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau'r sector cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ49457)

Carwyn Jones: Cyfrifoldeb y Gweinidog Tai a Chynllunio yw hwn ac nid yw wedi cael ei ddatganoli i'r Cynulliad.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisiâu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru wledig? (WAQ49458)

Carwyn Jones: Mae'r cyfeiriad strategol i amaethyddiaeth yng Nghymru wedi'i nodi yn 'Ffermio i'r Dyfodol', ynghyd â'r rhaglen weithredu o gymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid yng Nghymru. Yr oedd gweithredu diwygiadau'r polisi amaethyddol cyffredin yn 2005, gan ddefnyddio'r sylfaen hanesyddol ar gyfer y gyfundrefn taliad sengl, yn iawn i Gymru ac i ffermio yng Nghymru.

Y llynedd, cyhoeddais fod grwp ffermio cynaliadwy 2020 yn cael ei sefydlu i archwilio'r opsiynau ar gyfer ffermio a chefn gwlad Cymru i'r dyfodol. Mae'r grwp i fod i gyflwyno adroddiad ym mis Mehefin.

Elin Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad i gadarnhau a yw'r taliadau yn erbyn hawliadau ar

gytundebau Tir Gofal a Tir Cynnal cyfredol yn cael eu gwneud, ac os nad, pam felly? (WAQ49461)

Carwyn Jones: Mae'r hawliadau am daliadau o dan y cytundebau Tir Cynnal a Thir Gofal presennol yn cael eu prosesu yn unol â'r gofynion a nodwyd yn y cytundebau unigol, a chan roi sylw i ofynion newydd gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n pennu bod yn rhaid cynnal y gwiriadau dilysu ac arolygu cyn y gellir gwneud taliadau.

Elin Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o weithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd yn gweithio ym maes amaethyddiaeth? (WAQ49462)

Carwyn Jones: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflogi tua 700 o staff ar hyn o bryd sy'n ymwneud â chefnogi amaethyddiaeth a'r diwydiant bwyd-amaeth yng Nghymru.

Laura Anne Jones: A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau y gallant helpu'r bobl hynny yn y sector amaethyddol? (WAQ49466)

Carwyn Jones: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ar draws Cymru, a thrwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar faterion sy'n gallu mynd y tu hwnt i'w swyddogaethau statudol. Er enghraifft, mae'r awdurdodau lleol yn chwarae rôl allweddol yn gweithredu'r mesurau adfywio gwledig ehangach yng nghynllun datblygu gwledig 2007 i 2013 sydd, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn gallu cynnig cyfleoedd cefnogi ehangach i'r rhai sy'n gysylltiedig â'r sector amaethyddol.

Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i annog ailgylchu gwastraff yng Nghymru? (WAQ49471)

Carwyn Jones: Mae 'Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru' yn nodi'r fframwaith strategol a pholisi er mwyn cynyddu ailgylchu yng Nghymru. Wrth roi'r strategaeth hon ar waith canolbwyntir ar gyrraedd targedau uchelgeisiol ond realistig ac mae amryw o gynlluniau i gefnogi hyn.

Mae'r awdurdodau lleol wedi cael eu hannog i baratoi strategaeth rheoli gwastraff trefol yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad i nodi'n glir sut y maent yn bwriadu cyrraedd y targedau ailgylchu yn y dyfodol. Mae'r mesurau a nodwyd gan yr awdurdodau lleol fel rhai angenrheidiol wedi cael eu cefnogi gyda mwy na £150 miliwn o grant rheoli gwastraff yn gynaliadwy i lywodraeth leol rhwng 2001 a 2006. Ymysg yr elfennau cymorth eraill mae cynlluniau grant i gynorthwyo awdurdodau lleol a'r sector cymunedol, fel y cynllun ailgylchu strategol y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfrannu £6.8 miliwn ato.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi gwaith i annog cymunedau a deiliaid tai unigol ac i'r perwyl hwn yr ydym wedi noddi'r Cynllun Craff am Wastraff i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r angen i ailgylchu mwy.

Gan gydnabod yr angen i ganfod marchnadoedd i ddeunydd eildro a chompost, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyllido rhaglen weithredu'r cynllun gwastraff ac adnoddau a'r prosiect creu marchnadoedd Cymreig ar gyfer deunydd ailgylchu sy'n cael ei redeg gan Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru.

Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog amlinellu llwyddiannau allweddol o fewn y portffolio Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad er 2003 yn etholaeth Ogwr? (WAQ49472)

Carwyn Jones: Megis mewn rhannau eraill o Gymru, mae Ogwr wedi cael cymorth yn sgil amryw o bolisiâu a rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cael eu rheoli gan Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

Er 2003, mae safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig wedi cael ei sefydlu yn Ogwr, ym Mrynna a Wern Tarw, sef ardal helaeth o laswelltir cyfoethog ei rywogaethau.

Mae Ogwr wedi elwa hefyd o waith Cyswllt Ffermio, sydd wedi cynorthwyo teuluoedd ledled Cymru drwy ddarparu mynediad at gyngor cynllunio busnes rhad ac am ddim, ynghlwm wrth adolygiad o gyfleoedd amgylcheddol.

Mae wedi cynnig ystod lawn o wasanaethau i bob ffermwr cofrestredig yn ardal Ogwr. Mae'r ffermwyr hyn yn cael cylchlythyron rheolaidd o'r rhanbarth ac mae gwasanaethau eu hwylusydd lleol ar gael iddynt.

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 wedi rhoi i aelodau'r cyhoedd, ledled Cymru, hawl mynediad cyhoeddus newydd i gefn gwlad agored. Ers ei lansio yn 2005, mae etholaeth Ogwr wedi elwa o dir mynediad a grëwyd o dan y Ddeddf, yn cwmpasu arwynebedd o ryw 20,000 hectar i gyd.

Dylwn grybwyll hefyd fod saith grant prosesu a marchnata wedi cael eu cymeradwyo er 2003 yn Ogwr ac ardal awdurdod unedol Pen-y-bont ar Ogwr, dros oes olaf y cynllun. Mae hyn yn fuddsoddiad o £5 miliwn i gyd yn rhanbarth Ogwr a Phen-y-bont, gyda £2 filiwn o hynny'n gymorth grant.

John Marek: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa gynigion sydd ganddo i ddiogelu poblogaeth o Fras yr Yd yng Nghymru? (WAQ49514)

Carwyn Jones: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu Bras yr Yd yng Nghymru. Mae poblogaeth fach o Fras yr Yd yn bodoli ar safle gerllaw Bettisfield, ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae'r cyngor cefn gwlad yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar i ganolbwyntio'r ymdrechion cadwraeth mewn cysylltiad â Bras yr Yd ar safle Bettisfield ac mae cyswllt lleol yn digwydd hefyd gyda phartneriaid yn Lloegr.

Mae Bras yr Yd yn rhywogaeth sy'n cael blaenoriaeth yng nghynllun gweithredu bioamrywiaeth y DU. O'r herwydd, mae cynllun gweithredu rhywogaeth wedi cael ei gyhoeddi, ac mae'n nodi cyfres o gamau gweithredu sy'n ofynnol i atal a gwrthdroi dirywiad parhaus y rhywogaeth yn y DU.

Mae cymorth grant gan y cyngor cefn gwlad wedi hwyluso'r gwaith o ddarparu cyngor a hyfforddiant i swyddogion Tir Gofal lleol, gan ddarparu gwybodaeth am bresgripsiynau rheoli sy'n neilltuo o addas ar gyfer Bras yr Yd.

Mae ymchwil sydd ar y gweill yn cynyddu ein dealltwriaeth o anghenion ecolegol y rhywogaeth.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed ar fusnes y Cynulliad yn 2006, ynghyd â chost pob ymweliad? (WAQ49254) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49221) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe'ch cyfeiriaf at yr atebion i WAQ49223 a WAQ49226.

Jonathan Morgan: Beth yw cyfartaledd cost ymdrin ag ymholiadau sy'n ymwneud ag ailfandio'r dreth gyngor ac a wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad cyflawn o'r ffigur? (WAQ49431)

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Nid oes data am y gost fesul ymholiad yn cael ei ddal gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ei pholisïau ar etholaeth Dwyrain Abertawe? (WAQ49443)

Sue Essex: Bu llawer o ganlyniadau positif i bobl Dwyrain Abertawe yn sgil gweithredu polisïau sy'n dod o fewn fy mhortffolio i.

Cwblheais gytundeb polisi gyda chyngor Abertawe ym mis Rhagfyr 2004 yn nodi'r gwelliannau y cytunwyd arnynt y bydd y cyngor yn eu cyflawni erbyn 2007. Dangosodd Abertawe lefel foddhaol o berfformiad yn 2004-05 i gael ei grant cymell perfformiad am 2005-06 o £2,292,142.

Yn ogystal, mae'r adolygiad o berfformiad Abertawe yn erbyn y cerrig milltir polisi y cytunwyd arnynt ar gyfer 2005-06 wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar ac mae Abertawe wedi cael ei grant cymell perfformiad ar gyfer 2006-07 o £2,297,487. Dangosodd Abertawe ei bod yn parhau i wella ac yn perfformio'n gryf yn erbyn y cerrig milltir yn ymwneud ag oedi wrth drosglwyddo gofal, effeithlonrwydd ynni, cymorth i fusnesau newydd ac ailgylchu gwastraff.

Dylwn hefyd dynnu sylw at y ffaith bod cymorth heb ei neilltuo Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gyngor Dinas a Sir Abertawe yn gyfanswm o £268,452,565 yn 2006-07—cynnydd o 8.2 y cant.

Yn fwy eang, mae mudiadau sector cyhoeddus yn Abertawe wedi elwa o weithio gydag is-adran Gwerth Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol, gan ddod yn fwy effeithlon a gallu cyrchu at gyngor a chymorth am arferion gorau. Mae Gwerth Cymru wedi helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud arbedion o dros £30 miliwn ac mae ardal Abertawe wedi elwa drwy gymryd rhan fyw yn y gwaith hwn. Yn benodol:

mae cyngor Abertawe yn gweithio gyda Gwerth Cymru (Caffael) mewn nifer o feysydd. Mae'r cyngor wedi ymrwymo i'r Siarter Agor Drysau, ac mae'n aelod o'r bwrdd prosiect caffael cynaliadwy. Mae wedi cwblhau pecyn hunanasesu ac mae'n weithgar yn datblygu cyflenwyr lleol. Mae'r cyngor yn defnyddio'r wefan gaffael genedlaethol buy4wales.co.uk yn rheolaidd i hysbysebu cyfleoedd contract. Mae'r cyngor wedi sefydlu rhaglen cerdyn prynu Cymru. Mae swyddogion o gyngor Abertawe wedi eistedd ar nifer o dimau prosiect. Yn arbennig, maent wedi gweithio gyda Gwerth Cymru i ddatblygu ymwneud cwmnïau bach a chanolig eu maint â chaffael bwyd, ac maent wedi cymryd rhan mewn e-arwerthiannau a noddir gan Gwerth Cymru. Rheolwr trafnidiaeth Abertawe yw cadeirydd y grwp fflyd sydd wedi gosod nifer o gytundebau fframwaith fflyd llwyddiannus. Mae cyngor Abertawe hefyd wedi defnyddio fframweithiau Gwerth Cymru ym meysydd deunyddiau ysgrifennu, llungopiwyr, llogi ceir a byrddau gwyn i sicrhau arbedion.

Yn ogystal, mae Ymddiriedolaeth GIG Abertawe a Phrifysgol ac Athrofa Abertawe, yn ogystal â Choleg Addysg Bellach Abertawe a Chymdeithas Tai Gwalia, hefyd yn ymwneud llawer â gwaith Gwerth Cymru.

Yr wyf yn falch o adrodd o dan y cynllun gofodol, yr wyf fi'n gyfrifol amdano drwyddo draw, fod strategaeth glir i ddatblygu Bae Abertawe ac ardal y Cymoedd Gorllewinol yn cael ei datblygu.

Yn olaf, hoffwn dynnu sylw at ddyfarniadau sydd wedi cael eu gwneud dan gronfa wella Creu Cysylltiadau'r Cynulliad sy'n dod â budd uniongyrchol i bobl sy'n byw yn ardal Abertawe:

- mae dyfarniad o £200,000 wedi cael ei roi i Gyngor Dinas a Sir Abertawe i arwain prosiect llywodraeth leol cydweithredol i ddatblygu consortïwm ar gyfer y gwasanaeth strategol

addysg a dysgu gydol oes yn ne-orllewin a chanolbarth Cymru;

- mae dyfarniad o £38,500 wedi cael ei roi i Brifysgol Abertawe i arwain prosiect cydweithredol (ar ran partneriaeth sy'n cynnwys cyngor Abertawe ac awdurdodau eraill) i ymchwilio i achos busnes o blaid sefydlu trefniadau rhannu gwasanaeth wrth ddarparu gwasanaethau cyfreithiol;
- mae dyfarniad o £58,440 wedi cael ei roi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon-Taf i arwain prosiect ar ran partneriaeth (yn cynnwys cyngor Abertawe) i ddatblygu achos busnes o blaid ehangu consortiwm prynu presennol Cymru i gynnwys holl awdurdodau lleol Cymru ac o bosibl rannau eraill o'r sector cyhoeddus yng Nghymru;
- mae dyfarniad o £52,500 wedi cael ei roi i gyngor Castell-nedd Port Talbot i arwain prosiect ar ran partneriaeth (yn cynnwys cyngor Abertawe) i ddatblygu dull gweithredu rhanbarthol cydlynol rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol wrth gomisiynu lleoliadau/pecynnau gofal uchel eu cost i bobl ag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl. Y nod yw lleihau'r costau, gwella ansawdd y lleoliadau a gwella'r rheolaeth yn y farchnad;
- mae dyfarniad o £59,500 wedi cael ei roi i Gyngor Sir Benfro i arwain prosiect ar ran partneriaeth (yn cynnwys cyngor Abertawe) i ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb i'r potensial i ddarparu gwasanaeth rhanbarthol y tu allan i oriau ar sail ranbarthol/amlasiantaethol o ran materion nad ydynt wedi cael eu cynllunio.

Ann Jones: Faint o swyddfeydd post yn Sir Ddinbych a fydd yn cael budd o'r newidiadau i'r cynllun gostyngiad ardrethi busnes? (WAQ49474)

Sue Essex: Mae Cyngor Sir Ddinbych yn amcangyfrif y bydd tair swyddfa bost yn gymwys i gael gostyngiad o 50 y cant, ac y bydd 22 yn cael y gostyngiad llawn, 100 y cant, o 1 Ebrill 2007.

Ann Jones: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Ddinbych? (WAQ49475)

Sue Essex: Yn 2004-05 cwblheais gytundeb polisi gyda Chyngor Sir Ddinbych sy'n nodi'r gwelliannau y mae'r awdurdod wedi cytuno gyda Llywodraeth y Cynulliad y bydd yn eu cyflawni erbyn 2007. Yn dilyn hynny cafodd Sir Ddinbych randaliad cyntaf y grant cymell perfformiad, cyfanswm o £1,004,589.

Mae pob cytundeb polisi yn cynnwys 16 o fesurau ac mae grant cymell perfformiad yn cael ei dalu i'r awdurdodau lleol am gyrraedd lefel foddhaol o berfformiad yn erbyn y mesurau hyn.

Mae Sir Ddinbych wedi dangos perfformiad boddhaol yn erbyn y cerrig milltir yn ei chytundeb polisi

am y ddwy flynedd diwethaf ac mae wedi cael grant cymell perfformiad yn 2005-06 a 2006-07 o £1,030,730 a £1,029,430 y naill a'r llall.

Mae 'Cyflawni Ar Draws Ffiniau' yn nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu eu cymryd yng ngoleuni Beecham. Bydd y camau hyn yn cyflymu ein cynnydd tuag at y nod o drawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu a phrofiad pawb sy'n eu defnyddio. Egwyddorion allweddol y cynllun gweithredu yw rhoi dinasyddion yn gyntaf, gweithio gyda'n gilydd i gyflawni, datblygu gweithlu o safon fyd-eang, sicrhau effeithlonrwydd a gwelliannau perfformiad mawr.

Bydd Sir Ddinbych yn cael £125.3 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2007-08, cynnydd o 4.7 y cant o'i gymharu â 2006-07.

Karen Sinclair: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i wella cyflwyno gwasanaethau ar y lefel leol? (WAQ49476)

Sue Essex: Mae 'Cyflawni Ar Draws Ffiniau', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2006, yn nodi'r camau gweithredu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu eu cymryd yng ngoleuni Beecham. Bydd y camau hyn yn cyflymu ein cynnydd tuag at y nod o drawsnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu a phrofiad pawb sy'n eu defnyddio. Yr ydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch byrddau gwasanaethau lleol, a fydd â rôl allweddol yn integreiddio gwasanaethau lleol ac yn gwella'r ffordd y cânt eu cyflenwi.

William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau a gafwyd gyda Llywodraeth y DU ynghylch y dreth gyngor? (WAQ49485)

Sue Essex: Ni fu unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU am y dreth gyngor yng Nghymru. Mae'r polisi o ran y dreth gyngor yn fater sydd wedi cael ei ddatganoli.

Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n bwriadu cymell gweithredu adolygiad Beecham? (WAQ49477)

Sue Essex: Yr oedd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygiad Beecham yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu byrddau gwasanaethau lleol. Er mwyn helpu datblygiad y byrddau hyn, byddwn yn cefnogi cyfres o brosiectau datblygu. Bydd y rhain yn ymdrin â materion ymarferol gwella gwasanaethau, yn cynnwys cronni cyllidebau, gwella cynllun a phrosesau gwasanaethau, trefnu gweithredu ar y cyd ar faterion trawsffiniol, a sicrhau bod gan holl aelodau'r bwrdd fandad i gyfrannu'n effeithiol, a bod eu gwahanol sefydliadau wedi cytuno i'r mandad hwnnw.

Mae cronfa wella Creu'r Cysylltiadau yn dechrau ysgogi newid sylweddol yn y ffordd y mae cyrff gwasanaethau lleol yn edrych ar eu busnes. Rhoddais 28 o ddyfarniadau yng nghylch cyntaf y gronfa (yn bennaf tuag at agweddau amrywiol o wasanaethau sy'n cael eu rhannu) ac yr wyf yn ddiweddar wedi gwahodd ceisiadau newydd o dan ail gylch.

Mae Gwerth Cymru yn dal i weithio gyda chyrff sector cyhoeddus, yn hyrwyddo cydweithredu a chaffael sy'n cadw at yr arferion gorau, gan ymgynhyrchu at effeithlonrwydd a gwell gwerth wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn dal i gefnogi a gwella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus ar bob lefel, o ran gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau gwasanaethau cyhoeddus traddodiadol a denu'r gweithlu i gyfrannu tuag at wella gwasanaethau cyhoeddus i bobl yng Nghymru.

Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw ystyriaeth a roed ganddi i ddiwygio ardrethi busnes? (WAQ49478)

Sue Essex: Bydd y cynllun rhyddhad ardrethi gwledig yn cael ei ddisodli gan y cynllun rhyddhad ardrethi newydd i fusnesau bach ar 1 Ebrill 2007. Mater i Lywodraeth nesaf y Cynulliad fydd ystyried pa ddiwygiadau pellach a allai fod yn briodol, gan ystyried adroddiad Lyons, sydd i fod i gael ei gyhoeddi y mis nesaf.

John Griffiths: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo gwella gwasanaethau cyhoeddus mewn awdurdodau lleol yng Nghymru? (WAQ49479)

Sue Essex: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio gyda chyrff cenedlaethol eraill, yn ymwneud ag amryw o weithgareddau i hyrwyddo gwella gwasanaethau cyhoeddus yn awdurdodau lleol Cymru.

Mae rhaglen Cymru ar gyfer gwella yn darparu fframwaith polisi hyblyg, ond cadarn, i lywodraeth leol er mwyn iddi gyflawni ei dyletswyddau i sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Mae'n galluogi llywodraeth leol i gyflawni'r dyletswyddau hynny mewn ffordd sy'n cael ei hintegreiddio â chylchoedd cynllunio corfforaethol a chylchoedd cynllunio busnes, sy'n gallu cydnabod blaenoriaethau lleol ac sy'n fodd i lunio cymariaethau cenedlaethol a fydd yn gwtio gwelliannau i'r gwasanaethau cyhoeddus yn eu blaen.

Yr wyf hefyd wedi darparu bron i £4 miliwn yn ystod blwyddyn ariannol 2006-07 i gefnogi gwelliannau, drwy astudiaethau meithrin gallu lleol ac astudiaethau gwella cenedlaethol yr ymgynhyrchu Swyddfa Archwilio Cymru â hwy. Mae hyn yn cynnwys cyllid o £300,000 yn 2006-07 ar gyfer cynllun Rhagoriaeth Cymru. Bydd hwn yn nodi ac yn rhannu'r cyfoeth o ymarfer da mewn llywodraeth leol yng Nghymru drwy dynnu sylw at yr hyn sy'n arloesol ac yn gweithio'n dda wrth

ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus allweddol y mae ein cymunedau yn dibynnu arnynt.

Yn ogystal, yr wyf wedi darparu £500,000 yn y flwyddyn ariannol hon i gaffael a darparu meddalwedd rheoli perfformiad Cymru gyfan i'r holl awdurdodau lleol, y gwasanaethau tân ac achub ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yng Nghymru yn 2007-08 a 2008-09. Bydd consortiwm Computacenter Aspiren, sydd wedi ennill y contract hwn, yn darparu meddalwedd rheoli perfformiad sy'n llwyr weithredol i'r rhanddeiliaid erbyn mis Mai 2007. Bydd y meddalwedd yn sylfaen i fframwaith mesur perfformiad Llywodraeth y Cynulliad a bydd yn fodd i gasglu, symud ac adrodd am ddata perfformiad yn haws, a hynny o fewn sefydliadau a rhyngddynt. Drwy hyn bydd yr awdurdodau'n gwella ansawdd y data, ei hygyrchedd a'r defnydd ohono i reoli a gwella perfformiad.

John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd am gynllun gweithredu Cyflawni'r Cysylltiadau, yng nghyd-destun llywodraeth leol yng Nghymru? (WAQ49480)

Sue Essex: Mae llywodraeth leol yn dal i chwarae rôl dyngedfennol yn llywio'r ffordd ymlaen ac mae wedi mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol, o ran cydweithredu yn arbennig. Mae partneriaethau rhanbarthol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn chwarae rhan bwysig, er enghraifft, yn mynd ar drywydd modelau rhannu gwasanaethau a allai dorri tir newydd.

Yr ydym yn ymgynghori ynghylch byrddau gwasanaethau lleol ar hyn o bryd. Byddant yn dyngedfennol er mwyn integreiddio gwasanaethau lleol.

Carl Sargeant: A wnaiff y Gweinidog amlinellu llwyddiannau Llywodraeth y Cynulliad ym maes llywodraeth leol yn Sir y Fflint? (WAQ49481)

Sue Essex: Yn 2004-05 cwblheais gytundeb polisi gyda Chyngor Sir y Fflint a nodai'r gwelliannau yr oedd yr awdurdod wedi cytuno gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai'n eu cyflawni erbyn 2007. Yn dilyn hynny cafodd Sir y Fflint randaliad cyntaf y grant cymell perfformiad, sef cyfanswm o £1,428,476.

Yn 2005-06 dangosodd Sir y Fflint berfformiad boddhaol yn erbyn y mesurau yn ei chytundeb polisi a chafodd grant cymell perfformiad pellach o £1,468,919.

Mae'r swyddogion wedi cwblhau adolygiad 2006-07 o berfformiad Sir y Fflint ac wedi talu trydydd rhandaliad y grant cymell perfformiad, £1,464,862. Mae'r awdurdod wedi dangos gwelliant parhaus yn erbyn y cerrig milltir i leihau'r nifer o blant sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster, effeithlonrwydd ynni, lleihau'r nifer o oedolion sy'n wynebu oedi o ran trosglwyddo gofal, a lleihau'r nifer o blant sy'n derbyn gofal sy'n gorfod newid ysgol.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau gwario ar gyfer y chwe mis nesaf? (WAQ49482)

Sue Essex: Mae fy mlaenoriaeth am y flwyddyn hon wedi’u nodi yn ein cyllideb derfynol, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 13 Rhagfyr 2006, a ‘Chymru: Gwlad Well’.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel y dreth gyngor yng Nghymru? (WAQ49483)

Sue Essex: Mae’r cynnydd ar gyfartaledd o 4.5 y cant i fand D yn y flwyddyn ariannol gyfredol (2006-07) y cynnydd ail isaf ers i’r dreth gyngor gael ei chyflwyno, ac ar £962 mae 25 y cant yn is na threth gyngor band D ar gyfartaledd yn Lloegr. Mae’n rhy gynnar i ddarogan lefelau’r dreth gyngor yn 2007-08 gan fod y cynghorau wrthi’n gosod eu cyllidebau ar hyn o bryd.

William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau llywodraeth leol a ddarperir yn Nwyrain De Cymru? (WAQ49484)

Sue Essex: Mae’n anodd cyffredinoli am yr ystod eang o wasanaethau sy’n cael eu darparu gan chwe awdurdod lleol gwahanol. Mae safon y gwasanaethau yn yr ardaloedd hynny, fodd bynnag, yn dda y gyffredinol ac yn gwella.

Un o’r egwyddorion allweddol sy’n sail i ‘Creu’r Cysylltiadau’ a ‘Chyflawni Ar Draws Ffiniau’, ymateb Llywodraeth y Cynulliad i’r adolygiad gan Syr Jeremy Beecham o’r ffordd y caiff gwasanaethau lleol eu cyflenwi yng Nghymru, yw y ceir y canlyniadau gorau yng Nghymru o ran gwasanaethau cyhoeddus pan fydd darparwyr gwasanaethau yn cydweithio â’i gilydd. Mae copi o ‘Cyflawni Ar Draws Ffiniau’ i’w weld ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru www.Wales.gov.uk

Yr wyf yn fodlon iawn â lefel yr ymroddiad i gydweithredu a gweithio ar y cyd y mae awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru wedi ei dangos, boed hynny drwy’r cynllun gofodol, pwyllgor cyd-drefnu rhanbarthol CLILC, cynllun Blaenau’r Cymoedd, neu fel arall. Bydd datblygiadau pellach yn y maes hwn yn hanfodol i gynnal gwasanaethau o safon sy’n bodloni anghenion y cyhoedd.

Ann Jones: Beth oedd y cynnydd ar gyfer aelwydydd band D (a) mewn termau real a (b) fel canran ym mhraesept yr heddlu ar gyfer pob un o bedair ardal awdurdod heddlu Cymru? (WAQ49512)

Sue Essex: Rhoddir y wybodaeth a geisiwch yn y tabl isod:

	Treth gyngor band D 2006-07	Cynnydd Blynyddol
--	-----------------------------	-------------------

	£	£	%
Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys	150.21	7.11	5.0
Awdurdod Heddlu Gwent	152.32	7.25	5.0
Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru	166.89	7.95	5.0
Awdurdod Heddlu De Cymru	126.42	6.02	5.0

Ann Jones: Beth oedd y cynnydd (a) mewn termau real a (b) fel canran yng nghyfartaledd praeseptau treth gyngor ar gyfer aelwydydd Band D yng Nghymru rhwng 1996 a 2006 yng nghyswllt (i) y prif awdurdodau lleol h.y. y 22 awdurdod unedol, (ii) cynghorau tref mawr, (iii) cynghorau tref llai, cynghorau plwyf a chynghorau cymuned? (WAQ49513)

Sue Essex: Rhoddir y cynnydd ar gyfartaledd i awdurdodau unedol a chynghorau cymuned, am y cyfnodau y gofynnwyd amdanynt, yn y tabl isod. Mae'r cynnydd o ran awdurdodau unedol unigol ar gael ar y wefan ystadegau (dolen isod). Nid oes gwybodaeth am gynghorau tref, cynghorau plwyf a chynghorau cymuned unigol yn cael ei dal yn ganolog. Mae ffigurau i gynghorau cymuned ar gyfartaledd ar draws y siroedd unigol ar gael ar y wefan ystadegau.

http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/ReportFolders.aspx?IF_ActivePath=P,324,325,331

Treth gyngor band D ar gyfartaledd

	Cyngor sir	Cynnydd ar gyfartaledd		Cyngor cymuned ar gyfartaledd	Cynnydd blynyddol	
	£	£	%	£	£	%
1996-97	447.42			14.27		
1997-98	448.24	0.82	0.2	14.76	0.49	3.4
1998-99	512.68	64.44	14.4	15.73	0.97	6.5
1999-00	541.68	29.00	5.7	16.52	0.80	5.1
2000-01	589.52	47.84	8.8	17.05	0.53	3.2
2001-02	606.28	(a)	(a)	17.88	(a)	(a)
2002-03	649.58	43.30	7.1	18.75	0.88	4.9
2003-04	702.04	52.47	8.1	19.59	0.83	4.4
2004-05	733.72	31.67	4.5	20.37	0.78	4.0
2005-06	762.09	28.37	3.9	20.70	0.33	1.6

2006-07	795.09	33.01	4.3	21.89	1.19	5.7
---------	--------	-------	-----	-------	------	-----

(a) Nid yw'r ffigurau'n cymharu'n uniongyrchol â'r flwyddyn flaenorol oherwydd y ffordd y cafodd rhyddhad trosiannol ei drin.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed ar fusnes y Cynulliad yn 2006, ynghyd â chost pob ymweliad? (WAQ49243) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49217) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe'ch cyfeirïaf at yr atebion i WAQ49223 a WAQ49226.

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49244)

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Mewn ymateb i'ch cwestiwn, gallaf ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Yr oedd cyfanswm y gwariant ar gyhoeddusrwydd o fis Ebrill i fis Rhagfyr 2006 yn £782,000 ac mae'r swm hwn wedi cael ei ddadansoddi gydag enghreifftiau o ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a gaffaelwyd yn ganolog gan yr Is-adran Gyfathrebu fel a ganlyn:

- gwaith i gynyddu'r nifer o roddwyr gwaed;
- ymwybyddiaeth o imiwneiddio plant;
- peryglon mwg ail law; a
- rhoi'r gorau i ysmygu.

Byddaf yn ysgrifennu ymhellach gyda manylion am unrhyw wariant adrannol ar gyhoeddusrwydd na chafodd ei gaffael yn ganolog.

Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch pa ysbytai newydd a godwyd bob

blwyddyn er 1997 a godwyd drwy gyfrwng menter cyllid preifat? (WAQ49296)

Brian Gibbons: Mae tri ysbyty GIG yng Nghymru wedi cael eu codi drwy'r fenter cyllid preifat ac wedi agor er 1997: Ysbyty Cymunedol Cas-gwent, Ysbyty Cymdogaeth Dewi Sant yng Nghaerdydd ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.

Jenny Randerson: Sawl BILL yng Nghymru sydd wedi cwblhau, sydd wrthi'n cwblhau ar hyn o bryd, neu sydd heb eto ddechrau, yr asesiadau anadlol sydd ynghlwm wrth y contract ocsigen newydd? (WAQ49356)

Brian Gibbons: Mae byrddau iechyd lleol ar draws Cymru yn y broses o weithio gydag ymddiriedolaethau GIG i barhau â gwasanaethau asesiadau anadlol neu i'w datblygu ymhellach, ond nid oes gwybodaeth am hynt y gwaith ym mhob BILL yn cael ei dal yn ganolog.

Dechreuodd y gwasanaeth newydd ocsigen yn y cartref ar y 1af Chwefror 2006, ac Air Products Ltd oedd y cyflenwr oedd dan gontract i gyflenwi ocsigen ar bob ffurf yng Nghymru. Nid oedd y gwasanaeth hwn yn effeithiol a chafwyd cyfnod trosiannol o chwe mis. Yn ystod y cyfnod hwnnw parhaodd fferyllfeydd i gyflenwi tra oedd Air Products yn paratoi i gyflenwi rhagor o gleifion, gan leihau'r ddibyniaeth ar fferyllfeydd drwy hynny. Mae angen gwneud asesiad ocsigen ffurfiol unwaith y bydd claf yn sefydlog h.y. chwech i wyth wythnos ar ôl i'w gyflwr waethygu.

Jenny Randerson: Pryd fydd canlyniadau profi ysgogi yn nwfn yr ymennydd y Cyngor Ymchwil Feddygol yn hysbys? (WAQ49357)

Brian Gibbons: Cyfrifoldeb Comisiwn Iechyd Cymru yw darparu gwasanaethau ysgogi yn nwfn yr ymennydd i gleifion sydd â chlefyd Parkinson.

Mae treial llawdriniaeth clefyd Parkinson yn dreial mawr, syml, mewn 'bywyd go-iawn' a fydd yn dangos mewn modd dibynadwy a yw llawdriniaeth gynnar yn fwy effeithiol na gohirio llawdriniaeth mewn achosion datblygedig o glefyd Parkinson. Rhoddwyd y gorau i hapddethol i'r treial ym mis Rhagfyr 2006 a byddir yn dilyn hynt y cleifion am naw mlynedd.

Bydd y prif ddata cymharu rhwng cleifion ar gael yn hwyr yn 2008.

Owen John Thomas: Yn y cyfamser, tra'r ydym yn disgwyl am gyllid i ddarparu offer a hyfforddiant, a wnaiff Llywodraeth y Cynulliad ryddhau'r cyllid sydd ei angen i ganiatáu i'r achosion mwyaf brys o ganser y brostad yng Nghymru dderbyn triniaeth brachytherapi yn Lloegr? (WAQ49358)

Owen John Thomas: Pryd fydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian i'r Comisiwn Iechyd yng Nghymru dalu am driniaeth brachytherapi ar gyfer pobl sy'n dioddef o ganser y brostad yng Nghymru? (WAQ49359)

Owen John Thomas: Pryd fydd hyfforddiant pobl sy'n cynnig triniaeth brachytherapi yng Nghymru yn dechrau, a phryd fydd yr hyfforddiant hwnnw wedi'i gwblhau? (WAQ49360)

Owen John Thomas: Pryd fydd yr offer sydd ei angen i roi triniaeth brachytherapi i bobl sy'n dioddef o ganser y brostad yng Nghymru ar gael yn Ysbyty Felindre? (WAQ49361)

Owen John Thomas: Faint o arian sydd eisoes wedi ei drosglwyddo i Gomisiwn Iechyd Cymru gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn talu am driniaeth brachytherapi ar gyfer pobl sy'n dioddef o ganser y brostad yng Nghymru? (WAQ49362)

Brian Gibbons: Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ar gyfer canser y brostad nad yw wedi ymledu, ac eithrio brachytherapi dos isel sy'n rhan o gylch gwaith Comisiwn Iechyd Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal trafodaethau agos ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre a'r comisiwn ar hyn o bryd ynghylch sefydlu gwasanaeth yng Nghymru fel bod modd i gleifion gael brachytherapi dos isel, yn ogystal â radiotherapi pelydr llydan a llawdriniaeth, y ddau fath arall o driniaeth. Bydd penderfyniad manwl am y gwasanaeth hwnnw'n cael ei wneud yn fuan iawn.

Helen Mary Jones: Ar gyfer pob BILL, a wnaiff y Gweinidog ddweud pa mor agos y maent at dargedau cyllido, fel rhan o fformiwla Townsend? (WAQ49363)

Brian Gibbons: Daeth data o arolwg iechyd newydd Cymru ar gael am y tro cyntaf yn hydref 2005. Pan ddefnyddiwyd y data hwn i uwchraddio'r fformiwla anghenion uniongyrchol, effeithiasant yn sylweddol ar sefyllfaoedd cymharol sawl bwrdd iechyd lleol. Gofynnais am sicrwydd bod y data newydd yn gadarn at ddibenion dyrannu adnoddau cyn iddo gael ei ddefnyddio fel sylfaen i weithredu fformiwla Townsend ymhellach.

Comisiynodd y grwp arbenigol, a sefydlwyd i roi cyngor ynglyn â chynnal a datblygu'r fformiwla, adolygiad gan Brifysgol Caerefrog i brofi'r data newydd. Cafodd y gwaith hwnnw, ynghyd â gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i brofi dilysrwydd y model drwyddo draw, ei ystyried gan y grwp arbenigol yn ei gyfarfod ym mis Hydref. O ganlyniad, mae'r grwp wedi argymhell bod angen addasu'r fformiwla i adlewyrchu'r lefelau gwahaniaethol o ddifrifoldeb o ran cyflyrau iechyd rhwng ardaloedd—rhywbeth na roddir sylw digonol iddo yn y model ar sail data arolwg iechyd Cymru. Mae gwaith ar y gweill yn awr i lunio'r addasiad hwn, ond hyd nes y'i cwblheir ni fydd y cyfrannau targed newydd ar gael, felly ni ellir cyfrifo pellteroedd oddi wrth y targedau.

Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch y graddau y mae Macugen ar gael mewn BILlau yng Nghymru? (WAQ49364)

Brian Gibbons: Mae’r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol wrthi’n cynnal arfarniad technoleg ar hyn o bryd o sodiwm pegaptanib (Macugen)—ac o ranibizumab (Lucentis)—i drin dirywiad macwlaidd gwlyb sy’n gysylltiedig ag oedran. Disgwylir canllawiau terfynol NICE ym mis Hydref 2007. Pe bai canllawiau NICE yn argymhell defnyddio’r cyffuriau, byddai’n rhaid i fyrddau iechyd lleol yng Nghymru ddarparu’r cyllid er mwyn iddynt gael eu rhagnodi o fewn tri mis.

Gan fod sodiwm pegaptanib (Macugen) wedi cael ei drwyddedu i drin dirywiad macwlaidd gwlyb sy’n gysylltiedig ag oedran, gall BILlau ystyried ei gyllido’n awr er nad yw wedi cael ei arfarnu’n llwyr gan NICE eto. Pan fydd cyffuriau trwyddedig yn cael eu hadolygu gan NICE, nid yw’r BILlau yn cael eu hannog i’w cyllido heb egluro’n llawn wrth y claf y gallai’r driniaeth gael ei hatal pe bai NICE yn penderfynu na ddylai’r GIG gyllido’r cyffuriau hyn. Byddai angen hefyd i gyrff iechyd bwysu penderfyniad o’r fath yn erbyn amryw o alwadau taer eraill ar eu dyraniadau refeniw cyfyngedig a bod yn barod i gyfiawnhau’r penderfyniad i’w cymunedau lleol.

David Lloyd: Pa asesiad y mae’r Gweinidog wedi’i wneud o effaith Moderneiddio Gyrfaedd Meddygol (MMC) ar gyflogi meddygon iau? (WAQ49366)

Brian Gibbons: Mae MMC wrthi ar hyn o bryd yn recriwtio a dethol i’r holl swyddi gradd hyfforddi presennol sy’n cael eu cyllido mewn sefydliadau yng Nghymru. Mae hon yn broses gystadleuol agored ac unwaith y bydd wedi cael ei chwblhau bydd yn bosibl edrych ar y tueddiadau recriwtio a sut y dylid cysoni’r rhain â’r datblygu sy’n ofynnol yn y gweithlu er mwyn sicrhau gweithlu sydd wedi cael ei hyfforddi’n briodol ar gyfer anghenion cyfnewidiol GIG Cymru.

Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog ddatgan cyfanswm y gorwariant ar wasanaethau meddygol cyffredinol yng Nghymru dros gyfnod tair blynedd y contract GMC newydd a sut mae hyn yn cymharu â gweddill y DU? (WAQ49368)

Brian Gibbons: Yr oedd y gorwariant ar wasanaethau meddygol cyffredinol dros dair blynedd gyntaf y contract GMC newydd fel a ganlyn:

	£ miliwn o wariant	£000 o orwariant	%
2003-04	322.6	20	0.006
2004-05	391.6	22,952	6.2

2005-06	423.2	17,736	4.4
Cyfanswm	1,137	40,708	3.7

Nid oes ffigurau cymharol am y tair gwlad arall wedi cael eu cyhoeddi eto.

David Lloyd: Ynghylch y cynllun gweithredu anhwylderau yn y sbectrwm awtistaidd; a wnaiff y Gweinidog ddatgan sut mae'r cynllun yn darparu ar gyfer cefnogi teuluoedd? (WAQ49373)

David Lloyd: Ynghylch y cynllun gweithredu anhwylderau yn y sbectrwm awtistaidd; a wnaiff y Gweinidog ddatgan pa gyllid ychwanegol a neilltuir ar gyfer rhoi darpariaeth ar waith o fewn y cynllun? (WAQ49374)

David Lloyd: Ynghylch y cynllun gweithredu anhwylderau yn y sbectrwm awtistaidd; a wnaiff y Gweinidog ddatgan pa ddarpariaeth a wneir ar gyfer gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl? (WAQ49375)

David Lloyd: Ynghylch y cynllun gweithredu anhwylderau yn y sbectrwm awtistaidd; a wnaiff y Gweinidog ddatgan pa ddarpariaeth a wneir ar gyfer cynnig cefnogaeth mewn lleoliadau addysgol. (WAQ49376)

David Lloyd: Ynghylch y cynllun gweithredu anhwylderau yn y sbectrwm awtistaidd; a wnaiff y Gweinidog ddatgan sut mae'r cynllun yn darparu ar gyfer gwasanaethau sydd ar gael i oedolion? (WAQ49379)

Brian Gibbons: Mae'r cynllun gweithredu anhwylderau yn y sbectrwm awtistaidd, a gyhoeddwyd er mwyn ymgynghori ar 30 Ionawr, yn cwmpasu gwasanaethau i oedolion a phlant ac mae'n nodi cyfrifoldebau ar lefel genedlaethol a lleol i roi camau gweithredu penodol ar waith. Mae'r camau gweithredu hynny'n golygu bod angen ymdrin mewn ffordd gydlynol â chynllunio, comisiynu a chyflenwi gwasanaethau i bobl sydd ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistaidd ar draws y gwasanaethau iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol a chyda phartneriaid mewn asiantaethau eraill a meysydd lle nad yw'r cyfrifoldeb wedi cael ei ddatganoli.

Bydd manylion y trefniadau cyflenwi yn cael eu seilio ar yr ymatebion a geir yn y digwyddiadau ymgynghori sy'n cael eu cynnal gyda defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd, y sector gwirfoddol a chomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau, ac ar yr ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

Mae llawer o waith i'w wneud i fapio'r galw a'r gwasanaethau presennol. Nid yw'n bosibl mesur pa adnoddau ychwanegol fyddai'n help wrth ddarparu gwasanaethau. Efallai y gwnaiff y broses ddangos ymhle y gellid darparu gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithiol a gallai fod cyfleoedd i ailgyflunio'r ddarpariaeth bresennol.

Y dyddiad cau i'r broses ymgynghori yw 25 Mai 2007.

David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynglyn â strwythur staff, deiliaid swyddi ac aelodaeth yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd? (WAQ49377)

David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynglyn â chyfrifoldebau'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, yn ychwanegol i rôl Ymddiriedolaethau GIG, o ran ailgyflunio gwasanaethau iechyd? (WAQ49378)

Brian Gibbons: Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd wedi dod â'r tîm arloesi mewn gofal, y Ganolfan er Arweiniad mewn Iechyd i Gymru a'r gallu strategol i gynllunio'r gweithlu ynghyd.

Yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yw'r adnodd strategol, cenedlaethol i GIG Cymru wrth iddo roi agenda 'Cynllun Oes' ar waith. Mae'r tîm yn darparu cymorth ar draws y swyddogaethau arweinyddiaeth a datblygu sefydliadol; gwella gwasanaethau; datblygu'r gweithlu, addysg a chontractio; llywodraethu ym maes iechyd; a gweithio drwy bartneriaeth.

Gall cymorth gan yr asiantaeth fod ar ffurf rhaglenni cenedlaethol, fel y rhai sy'n ymdrin â llwybrau gofal integredig a sgiliau er mwyn newid, cyfleoedd datblygu a gynigir ar draws Cymru fel y rhaglen datblygu sefydliadol i ymarferwyr a'r rhaglen i'r rhai sy'n anelu at fod yn nyrsys gweithredol a gynigir dan y brand 'gofalu i arwain'. Mae cymorth pwrpasol yn cael ei ddarparu hefyd i sefydliadau unigol neu gymunedau iechyd a chaiff ei sianelu drwy'r timau moderneiddio ac asesu a thîm yr asiant dros newid.

Mae strwythur yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd i'w weld yn yr atodiad a gyhoeddwyd ar wahân i'r ffeil hon.

Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa raddfa neu fand yw'r norm ar gyfer nyrs staff brofiadol yn gweithio amser llawn mewn uned gofal coronaidd mewn Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru? (WAQ49380)

Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod yr 'Agenda ar gyfer Newid' yn pennu bod nyrsys a asesir yn rhai sy'n cyflawni'r un dyletswyddau mewn unrhyw Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn cael eu graddio neu fandio ar yr un lefel? (WAQ49381)

Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod nyrsys staff profiadol sy'n gweithio amser llawn mewn unedau gofal coronaidd mewn Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru i gyd yn cael eu graddio neu fandio ar yr un lefel? (WAQ49382)

Brian Gibbons: Mae profion cysondeb ar ganlyniadau bandiau yr ‘Agenda ar gyfer Newid’ yn cael eu cynnal i ddechrau ar lefel sefydliad ac maent yn rhan o archwilio cysondeb yn y llawlyfr gwerthuso swyddi y cytunwyd arno’n genedlaethol—yr ail argraffiad, Hydref 2004, adran 11. Mae staff nyrsio wedi bod yn destun monitro cychwynnol ar y canlyniadau drwy’r DU gyfan a chafodd gwelliannau i’r proffiliau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol eu cyhoeddi i rai staff nyrsio yn 2005. Mae monitro canlyniadau drwy Gymru gyfan yn digwydd yn rheolaidd ac mae dros 50 o fanylion monitro o’r fath wedi cael eu cyhoeddi i grwpiau staff. Y casgliad cyffredinol, o’r monitro a wnaethpwyd hyd yma, yw bod y cynllun cyfatebu ar sail gwerthuso swyddi yn cael ei gymhwyso’n gywir ar draws Cymru.

Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddisgrifio prif elfennau menter atal diabetes Llywodraeth y Cynulliad a lansiwyd yn Hydref 2004? (WAQ49383)

Brian Gibbons: Lansiwyd y fenter atal diabetes ym mis Hydref 2005 fel rhan o’n rhaglen waith i weithredu’r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes. Mae Cymru’n hybu atal fel rhan o ymgais ddeuol i wella iechyd a lles drwy roi rhagor o bwyslais ar atal a thrwy wella gwasanaethau.

Mae strategaeth gyflawni y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes yn canolbwyntio’n glir ar atal y clefyd a’i ganfod yn gynnar, ac mae’r fenter hon yn mynd i’r afael â hynny. Y nod yw y bydd llai o bobl yn datblygu diabetes erbyn 2013, diabetes math 2 yn arbennig. Cyflawnir hyn drwy ganolbwyntio ar y prif ffactorau risg i ddiabetes math 2 a chodi ymwybyddiaeth ymysg poblogaeth Cymru o:

- fwyta’n iach;
- atal gorbwysau neu ordewdra;
- gweithgarwch corfforol;
- mae posteri a thafleuni wedi cael eu dosbarthu’n eang ar draws Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o’r ffaith bod modd atal diabetes math 2.

Helen Mary Jones: Faint o lawdriniaethau a wnaed yn GIG Cymru bob blwyddyn er 1999? (WAQ49385)

Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog roi’r rhesymau dros unrhyw newid yn nifer y llawdriniaethau a wnaed bob blwyddyn yn GIG Cymru er 1999? (WAQ49386)

Brian Gibbons: Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae amseroedd aros wedi gostwng yn ddramatig a gostyngodd y nifer o gleifion a oedd yn disgwyl dros 12 mis am driniaeth fel claf

mewnol/achos dydd o bron i 10,000 i ddim ond un. Canlyniad buddsoddiad parhaus gan y Cynulliad mewn gwasanaethau iechyd a gwaith caled staff y GIG yw hyn. Yn ogystal, mae datblygiadau mewn meddygaeth fodern wedi golygu bod llawer o gleifion yr oedd angen llawdriniaeth arnynt gynt yn cael eu trin mewn ffyrdd eraill erbyn hyn. Er enghraifft, mae ein dull integredig o ymdrin ag orthopedeg yn golygu bod cleifion yn gallu cael help gan ffisiotherapyddion, yn hytrach na chael eu gweld gan lawfeddyg, ac ni fyddent felly yn cael eu cynnwys wrth i Lywodraeth Cynulliad Cymru gasglu'r ystadegau canolog. Mae hyn yn agwedd arall o'n dull gweithredu sy'n cwtogi amseroedd aros ymhellach yn GIG Cymru.

Mae'n ymddangos bod newidiadau i ddulliau adrodd wedi arwain at anghysondebau yn y dilyniant data dros y cyfnod amser er 1999. Gellir cael darlun mwy effeithiol o'r gweithgarwch drwyddo draw drwy edrych ar y nifer o dderbyniadau i'r ysbty o ran trigolion Cymru. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi ym mhennod 8 o 'Ystadegau Iechyd Cymru', y mae copi ohono ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan:

<http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/publications/hsw2007/?lang=cy>

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi data am weithdrefnau llawdriniaeth dewisol yn 'Ystadegau Iechyd Cymru' (hefyd ym mhennod 8) ond nid yw'r data hwn yn cynrychioli cyfanswm o ran y llawdriniaethau a gyflawnwyd.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio Aricept, Exelon a Reminyl i drin clefyd Alzheimer, a dweud pam nad ydynt ar gael i drin cleifion yng Nghymru? (WAQ49389)

Brian Gibbons: Cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ei ganllawiau terfynol ar 22 Tachwedd 2006 ar ddarparu Aricept, Exelon and Reminyl i drin clefyd Alzheimer. Digwyddodd hyn ar yr un pryd ag y cyhoeddodd ei ganllaw clinigol ar reoli dementia (yn cynnwys clefyd Alzheimer). Y canllawiau yw:

- mai dim ond fel opsiynau wrth drin pobl sydd â ffurf ganolig o glefyd Alzheimer y dylid ystyried donepezil (Aricept), galantamine (Reminyl) a rivastigmine (Exelon); a
- mai dim ond fel rhan o astudiaethau clinigol i bobl sydd â chlefyd Alzheimer canolig-ddifrifol i ddifrifol y mae memantine (Ebixa) yn cael ei argymhell.

Dim ond i gleifion sydd newydd gael diagnosis y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol. Dylai cleifion a oedd yn defnyddio'r cyffuriau hyn cyn canllawiau NICE barhau i wneud hynny, ar y sail y dechreuwyd y driniaeth.

Deallaf fod dau o'r cwmnïau cyffuriau sy'n cynhyrchu Aricept wedi cyhoeddi y byddant yn ceisio arfarniad barnwrol o benderfyniad NICE. Ni fyddai'n briodol imi wneud sylwadau o ystyried yr achos llys posibl.

Caiff canllawiau NICE eu datblygu ar ôl cael cyngor cynhwysfawr gan ystod eang o ffynonellau

arbenigol yn cynnwys gofalwyr, y GIG, diwydiant a'r byd academiaidd. Maent yn ddarostyngedig i broses werthuso drylwyr. Mae pwyllgorau arfarnu NICE yn clywed tystiolaeth gan arbenigwyr clinigol enwebedig, cyn gwneud eu hargymhellion.

Mae NICE yn gorff annibynnol ac fe'i sefydlwyd i wneud penderfyniadau am effeithiolrwydd clinigol a chost effeithiolrwydd cynhyrchion ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf. Weithiau mae'n rhaid i NICE ddweud 'na' i driniaeth gan nad yw'r dystiolaeth yn dangos ei bod yn effeithiol yn glinigol ac o ran cost.

Nick Bourne: Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i frwydro yn erbyn clefyd Alzheimer yng Nghymru? (WAQ49390)

Brian Gibbons: Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw darparu gwasanaethau dementia, sy'n cynnwys clefyd Alzheimer. Caiff cleifion eu trin ar sail angen clinigol ac ymdrinnir â'r rhan fwyaf o achosion yn foddhaol o fewn gofal sylfaenol ac eilaidd yng Nghymru.

Mae un o safonau'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hyn yn canolbwyntio ar hyrwyddo lles meddyliol yn ogystal ag ar fesurau penodol i atal dementia. Ei nod yw:

- lleihau'r risg o ddementia drwy hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn feddyliol a chorfforol, osgoi camddefnyddio alcohol a diffyg fitaminau a ffactorau risg fasgwlar;
- hyrwyddo diagnosis o fewn gofal sylfaenol a mynediad cyflym at asesu a gwasanaethau arbenigol (ee clinigau cof). Mae hyn yn cynnwys adnabod symptomau dementia mewn oedolion iau yn well;
- sicrhau bod gwasanaethau integredig ar gael i gynorthwyo pobl sydd â dementia a'u gofalwyr / teuluoedd—gwasanaethau yn y gymuned lle mae hynny'n briodol, ynghlwm wrth wasanaethau meddygon teulu a gwasanaethau arbenigol;
- sicrhau bod gwasanaethau wedi'u teilwrio ar gael sy'n diwallu anghenion penodol pobl iau sydd â dementia a'u teuluoedd a'u gofalwyr;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r prosiect Nyrsys Admiral—nyrsys gofal dementia arbenigol sy'n gweithio yn y gymuned gyda theuluoedd a gofalwyr pobl sydd â dementia;
- hyrwyddo defnyddio technoleg gynorthwyol i helpu pobl hyn sydd â dementia i fyw gartref lle mae hynny'n briodol;
- hyrwyddo rôl y sector gwirfoddol yn cefnogi pobl sydd â dementia a'u gofalwyr; a
- sicrhau bod darpariaeth gofal tymor hir ar gael i bobl sydd â dementia.

Drwy Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu rhwydwaith ymchwil dementias a chlefydau niwroddirymiol Cymru. Nod y rhwydwaith yw datblygu cydweithredu agos, o fudd i'r naill ochr a'r llall, rhwng ymchwil ac iechyd a gofal cymdeithasol, gan sicrhau y bydd y materion a'r pryderon sy'n wynebu defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael mwy o ddylanwad ar ymchwil a datblygu, ac y bydd ymchwil a datblygu'n cael mwy o ddylanwad ar y ddarpariaeth gwasanaethau.

Jocelyn Davies: A wnaiff y Gweinidog roi amserlen ar gyfer yr ymgynghori, ac ar gyfer cyhoeddi'r cyfarwyddbau terfynol ar ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer epilepsi? (WAQ49391)

Brian Gibbons: Mae'r cyfarwyddbau ar ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer epilepsi yn cael eu cwblhau ar eu gwedd derfynol ar hyn o bryd a chânt eu cyflwyno i mi, i gael eu cymeradwyo i'r diben o ymgynghori â'r cyhoedd, erbyn diwedd mis Mawrth. Rhagwelir y bydd proses dri mis i ymgynghori â'r cyhoedd yn dechrau ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2007, a'r nod yw cyhoeddi'r ddogfen derfynol erbyn mis Awst 2007.

Alun Cairns: Pa ragamcanion sydd ar gael ynghylch nifer y meddygon yn y GIG yng Nghymru dros y ddwy flynedd nesaf? (WAQ49396)

Brian Gibbons: Bu newid mawr mewn hyfforddiant meddygol yn sgil Moderneiddio Gyrfaedd Meddygol (MMC). Mae MMC yn rhagflaenu ad-drefnu mawr ar raddau meddygon ty cyn-cofrestru ac uwch feddygon ty, sy'n golygu bron i 1,400 o feddygon sy'n cael eu hyfforddi yn GIG Cymru. Nod MMC yw gwella'r gofal i gleifion drwy ddarparu strwythur gyrfaol wedi'i foderneiddio, a ffocws iddo, i feddygon. Cyflawnir hyn drwy greu rhaglen sylfaen ddwy flynedd a fydd yn cynnig rhaglen o hyfforddiant sgiliau generig a gaiff ei mapio yn erbyn safonau cytunedig a phenodol o ran cymwyseddau a asesir, a rhaglenni hyfforddiant arbenigol symlach. Caiff y rhain eu datblygu i ddilyn ymlaen o'r rhaglen sylfaen, gyda'r nod o ddarparu ymgynghorwyr sy'n addas i'w diben o fewn GIG modern.

Mae'r lleoedd meddygol yng Nghymru wedi dyblu bron ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Mae'r nifer o leoedd wedi tyfu o 190 ym 1999 i 375 yn 2006. Yn yr ysgol feddygol ym Mhrifysgol Caerdydd ym mlwyddyn academiaidd 2006-07, mae 305 o leoedd ar gael, yn cynyddu i 320 ym mlwyddyn academiaidd 2007-08. Mae 70 o leoedd ychwanegol ar gael hefyd yn y cynllun derbyn i raddedigion sydd wedi'i leoli yn Abertawe. Mae'r cynllun derbyn i raddedigion yn Abertawe yn radd feddygol 'llwybr cyflym' bedair blynedd. Lanswyd y rhaglen ym mis Medi 2004.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i weithio'n agos gyda Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru Abertawe i sicrhau bod lleoedd meddygol ar gael i ddiwallu anghenion y GIG yng Nghymru.

Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog nodi faint o feddygon a gyflogwyd yn y GIG yng Nghymru ym mhob un o'r 5 mlynedd ddiwethaf? (WAQ49397)

Brian Gibbons: Meddygon (cyfrif pennau) ar 30 Medi

						Newid 2001 i 2005	
	2001	2002	2003	2004	2005	Nifer	Y cant
Ysbytai a Chymuned							
Y Gwasanaethau Iechyd	4,312	4,561	4,554	5,084	5,166	854	19.8
Pob Meddyg yn cynnwys meddygon teulu (a)							
	5,783	6,022	6,076	6,597	6,810	1,027	17.8

(a) Heb gynnwys cynorthwywyr clinigol ac ymarferwyr ysbytai, yn cynnwys cofrestryddion ymarfer cyffredinol

Helen Mary Jones: A oes profion cysondeb wedi eu cynnal ar ganlyniadau cyfatebu swydd yr Agenda dros Newid ar gyfer staff nyrsio rhwng pob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru a'r rheini yn Lloegr? (WAQ49412)

Helen Mary Jones: A oes archwiliadau cysondeb wedi eu cynnal ar ganlyniadau cyfatebu swydd yr Agenda dros Newid ar gyfer staff gwybodaeth a TG rhwng ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru a'r rheini yn Lloegr? (WAQ49413)

Helen Mary Jones: A oes profion cysondeb wedi eu cynnal ar ganlyniadau cyfatebu swydd yr Agenda dros Newid ar gyfer staff cyllid rhwng ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru a'r rheini yn Lloegr? (WAQ49414)

Helen Mary Jones: A oes profion cysondeb wedi eu cynnal ar ganlyniadau cyfatebu swydd yr Agenda dros Newid ar gyfer staff nyrsio rhwng pob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru? (WAQ49416)

Helen Mary Jones: A oes archwiliadau cysondeb wedi eu cynnal ar ganlyniadau cyfatebu swydd yr Agenda dros Newid ar gyfer staff nyrsio ym mhob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru? (WAQ49417)

Helen Mary Jones: A oes profion cysondeb wedi eu cynnal ar ganlyniadau cyfatebu swydd yr Agenda dros Newid ar gyfer staff gwybodaeth a TG mewn ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru? (WAQ49418)

Helen Mary Jones: A oes profion cysondeb wedi eu cynnal ar ganlyniadau cyfatebu swydd yr Agenda dros Newid ar gyfer staff gwybodaeth a TG rhwng pob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru? (WAQ49419)

Helen Mary Jones: A oes profion cysondeb wedi eu cynnal ar ganlyniadau cyfatebu swydd yr Agenda dros Newid ar gyfer staff cyllid rhwng pob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru? (WAQ49420)

Helen Mary Jones: A oes archwiliadau cysondeb wedi eu cynnal ar ganlyniadau cyfatebu swydd yr Agenda dros Newid ar gyfer staff cyllid ym mhob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru? (WAQ49421)

Brian Gibbons: Mae profion cysondeb ar ganlyniadau bandiau yr ‘Agenda ar gyfer Newid’ yn cael eu cynnal i ddechrau ar lefel sefydliad ac maent yn rhan o archwilio cysondeb yn y llawlyfr gwerthuso swyddi y cytunwyd arno’n genedlaethol—yr ail argraffiad, Hydref 2004, adran 11.

Mae monitro canlyniadau drwy Gymru gyfan yn digwydd yn rheolaidd ac mae dros 50 o fanylion monitro o’r fath wedi cael eu cyhoeddi i grwpiau staff yn cynnwys ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, podiatregwyr, nyrsys theatr, rheolwyr timau ymwelwyr iechyd, nyrsys band 6, bydwragedd, nyrsys ardal a rheolwyr timau nyrsys ardal. Y casgliad cyffredinol, o’r monitro a wnaethpwyd hyd yma, yw bod y cynllun cyfatebu ar sail gwerthuso swyddi yn cael ei gymhwyso’n gywir ar draws Cymru.

Nid yw’r monitro ar ganlyniadau ariannol y newidiadau i fandiau o dan yr ‘Agenda ar gyfer Newid’ wedi cael ei gwblhau eto. Ni fu cais hyd yma i fonitro canlyniadau TG sefydliadol.

Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch canran y gyllideb iechyd a wariwyd ar wella a hybu iechyd ar gyfer pob blwyddyn er 1999? (WAQ49415)

Brian Gibbons: Mae’r gwariant ar wella iechyd a hyrwyddo iechyd wedi cyfateb i 1 y cant o’r gyllideb iechyd lawn bob blwyddyn er 1999.

David Lloyd: Pa drafodaethau diweddar a gynhaliodd y Gweinidog ynghylch dyfodol gorsaf ambiwlans y Cymer, ac a wnaiff ddatgan pa fesurau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth i gefnogi’r orsaf? (WAQ49426) *Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog.*

Y Prif Weinidog: Cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a’r comisiynwyr—Comisiwn Iechyd Cymru, yw penderfyniadau yn ymwneud â rheolaeth gwasanaethau

a gorsafoedd ambiwlans. Dylid cael gwybodaeth am y ddarpariaeth gwasanaeth ambiwlans a phenderfyniadau ynglyn ag oriau gwaith gorsafoedd ambiwlans oddi wrth Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru.

Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth gofal iechyd sylfaenol yn etholaeth Ogwr? (WAQ49473)

Brian Gibbons: Mater i Fwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau yn ei ardal, yw'r ddarpariaeth gofal sylfaenol yn Ogwr. Mae rôl gomisiynu'r BILl yn caniatáu iddo lunio a datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol. Mae contractau newydd i wasanaethau meddygaeth gyffredinol, fferylliaeth a deintyddiaeth wedi cael eu cyflwyno ac maent yn rhoi diwygiadau pwysig ar waith sydd o fudd i etholaeth Ogwr yn ogystal â gweddill Cymru.

Lisa Francis: Beth oedd canlyniad yr ymgynghoriad a'r achos busnes a gyflwynwyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru yn 2005 ynghylch datblygu gwasanaeth arbenigol ar anhwylderau bwyta ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru? (WAQ49506)

Brian Gibbons: Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn y broses o ddatblygu gwasanaeth anhwylderau bwyta trydyddol seiliedig yn y gymuned er mwyn trin cleifion sydd ag anhwylderau bwyta difrifol. Bydd hyn yn lleihau'r angen am wasanaeth arbenigol i gleifion mewnol. Mae'r comisiwn yn cwrdd â'r byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau er mwyn datblygu'r gwasanaethau priodol ar gyfer y grwp hwn o gleifion.

Fel un o gamau gweithredu allweddol y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion yng Nghymru, bydd ystod o wasanaethau arbenigol ar gael ar draws Cymru. Dylai'r rhain gynnwys gwasanaethau anhwylderau bwyta a fydd o fewn cyrraedd yn ardal pob ymddiriedolaeth GIG. Yr ydym wedi gofyn i'r BILlau a'r comisiwn iechyd edrych ar eu darpariaeth gwasanaethau anhwylderau bwyta i gleifion mewnol a datblygu gwasanaethau priodol yn unol â'u strategaethau comisiynu.

Mae'r BILlau yn cynhyrchu eu cynlluniau gweithredu lleol eu hunain, yn dangos sut y maent yn bwriadu rhoi camau gweithredu allweddol y fframwaith gwasanaethau cenedlaethol ar waith a darparu gwasanaethau iechyd meddwl ychwanegol, y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol i gyrraedd targedau presennol y fframwaith gwasanaeth a chyllid.

Yr ydym hefyd wedi comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i ddatblygu llwybr gofal i anhwylderau bwyta, o ofal sylfaenol hyd at ofal trydyddol. Byddem yn disgwyl i bob haen o'r gwasanaeth roi sylw i'r rhain ac i ganllawiau clinigol NICE wrth ystyried sut i ddatblygu'r ddarpariaeth anhwylderau bwyta.

Lisa Francis: Pa ddarpariaethau ar gyfer anhwylderau bwyta sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysbyty Glanrhyd, Pen-y-bont ar Ogwr ac a wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cynlluniau ar gyfer datblygu'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol agos? (WAQ49507)

Brian Gibbons: Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn bwriadu dechrau ymgynghori â'r cyhoedd am gynlluniau i ddatblygu gwasanaeth cleifion mewnol newydd fel rhan o'r gwasanaethau CAMHS ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Mai 2007. Mae'r cynigion yn awgrymu ateb dros dro mewn adeilad wedi'i uwchraddio yng Nglanrhyd a fydd ar gael yng ngwanwyn 2008 tra bydd cyfleuster pwrpasol yn cael ei godi ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru yn 2010.

Mae'r comisiwn iechyd yn gweithio'n agos gyda'r ymddiriedolaethau ar hyn o bryd i ddatblygu cynigion amgen yn lle triniaeth i gleifion mewnol. Awgrymir pethau fel timau allgymorth arbenigol a chyfleusterau gofal dydd i gynorthwyo rhagor o gleifion gartref, rheoli'r galw a sicrhau mai dim ond y cleifion hynny y mae angen gwasanaethau trydyddol i gleifion mewnol arnynt sy'n teithio i ganolfannau o'r fath.

Mae'r comisiwn yn adolygu'r galw am welyau cleifion mewnol yn y dyfodol yng ngoleuni'r gostyngiad yn nifer y derbyniadau yn ddiweddar ac mae'n bwriadu datblygu gwasanaethau cryfach i gael eu darparu yn y gymuned. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn sylfaen i'r gwelyau a gomisiynir yn yr uned CAMHS ac anhwylderau bwyta newydd arfaethedig yng Nglanrhyd.

Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog a) ddarparu rhestr o'r holl ganolfannau byw'n iach a fydd yn cau unwaith y daw eu harian NOF (y Gronfa Cyfleoedd Newydd) i ben a b) darparu manylion unrhyw rai a fydd yn parhau i weithredu ond gyda lefelau gwasanaeth is? (WAQ49508)

Brian Gibbons: Yng Nghymru, cyllidwyd 29 o ganolfannau byw'n iach am gyfnodau o dair i bum mlynedd rhwng 1999 a 2001. Yn wreiddiol, cyllidwyd y canolfannau byw'n iach gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd, y Gronfa Loteri Fawr erbyn hyn, am gyfnod cyfyngedig. Er mwyn cefnogi'r canolfannau gyda'u cynllunio a'u datblygu tymor hir, datblygodd y Gronfa Loteri Fawr y rhwydwaith o ganolfannau byw'n iach. Canolfan Iechyd Cymru sydd â'r contract i gynnal y rhwydwaith hwn sy'n darparu help a chymorth i ganolfannau sy'n chwilio am gyfleoedd cyllido eraill neu ffyrdd gwahanol o ddod yn hunangynhaliol.

Mae llwyddiant y canolfannau byw'n iach yn cael ei werthuso'n annibynnol ac mae gwerthusiad astudiaeth achos o'r canolfannau yng Nghymru wedi dod i'r casgliad na fydd yr holl ganolfannau byw'n iach yn cael eu cadw ar eu ffurf bresennol. Mae'r adroddiad interim drafft hefyd yn awgrymu, fodd bynnag, y bydd llawer ohonynt wedi gadael etifeddiaeth o ran gweithio i wella iechyd a lles a gaiff ei chynnal y tu hwnt i'r cyllid ar gyfer y rhaglen.

Mae'r cyllid i bum canolfan wedi peidio yn barod a bydd eraill yn dod i ben dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhestr isod yn amlinellu pryd y dechreuodd y cyllid i bob canolfan byw'n iach a phryd y

bydd yn dod i ben.

DYDDIADAU DOD I BEN CYLLID I GANOLFANNAU BYW’N IACH

Sefydliad	Dyddiad gorffen y prosiect
Ymddiriedolaeth GIG Felindre—Llaneirwg	31.03.06
Caffi Cymunedol Bridges	31.03.06
Cynghrair Iechyd Meddwl Powys	31.10.06
Cyngor Sir Powys	26.03.07
BILL RhCT	28.05.09
Cywaith Joseff	11.07.06
CBS Caerffili—Cwm Rhymni Uchaf	30.03.07
Ymddiriedolaeth GIG Felindre—Butetown/ Grangetown	04.10.07
Ymddiriedolaeth GIG Felindre—Llanrhymni	30.03.07
Age Concern Gwent	30.03.07
Groundwork Pen-y-bont ar Ogwr	30.07.07
Age Concern Castell-nedd Port Talbot	30.03.07
Age Concern Sir Drefaldwyn	23.04.07
Age Concern Ceredigion	03.01.08
Cyngor Sir Ddinbych	30.12.07
CBS Merthyr Tudful	30.11.07
Arbenigwyr Cymunedol Foothold	30.07.07
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen	30.11.07
Bryncynon	30.01.08
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	28.12.06
Cyngor Sir Abertawe—Healthforce	27.09.07
CBS Caerffili—Lansbury Park	30.10.07
CBS Blaenau Gwent	30.09.08
Parc Caia	29.03.08
Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda	31.12.07
Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr y Gogledd-orllewin	30.12.07
Cyngor Sir Abertawe—Healthy directions	30.12.07
Ymddiriedolaeth GIG Felindre—Iechyd rhywiol	30.10.07
Groundwork Wreccsam	28.10.04

Bydd gwybodaeth fanylach am ganolfannau byw’n iach unigol ar gael gan y Gronfa Loteri Fawr.

Gellir cysylltu â'r gronfa drwy'r wefan www.biglotteryfund.org.uk/wales neu drwy ffonio'r llinell gyngor ar 0845 4 10 20 30.

Yn lleol y dylid penderfynu ar ddatblygiad prosiectau unigol a chynaliadwyedd canolfannau byw'n iach i'r dyfodol, er enghraifft, drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion yn cael eu hasesu'n unol â gofynion cymunedau lleol ac yn unol â'r strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles lleol.

Alun Ffred Jones: Beth yw polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran osgoi 'loteri cod post' yng nghyswllt gwasanaeth profedigaeth a gefnogir gan y GIG i deuluoedd sydd wedi colli plentyn neu sy'n wynebu colli plentyn yn y dyfodol agos? (WAQ49509)

Brian Gibbons: Mae pob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn ymwybodol o'i chyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau profedigaeth i bob grwp oedran.

Mae llawer o ysbytai yng Nghymru yn ymfalchïo yn eu trefniadau cynhwysfawr i ddarparu cefnogaeth i rieni plant marw-anedig neu blant sy'n marw'n newydd-anedig a seilir y rhain ar ganllawiau a chngor proffesiynol gan sefydliadau cenedlaethol fel SANDS, y gymdeithas dros fabanod marw-anedig a phlant sy'n marw'n newydd-anedig.

Mae llawer o wardiau plant hefyd wedi datblygu eu systemau cymorth mewn profedigaeth eu hunain ond mae'r rhan fwyaf hefyd yn cydnabod eu dibyniaeth ar fudiadau lleol fel Chrysalis ac ar gyhoeddiadau arbenigol fel 'A Guide for Parents of Terminally Ill Children' a gyhoeddwyd gan y Child Bereavement Trust.

Gan fod cymorth ysbytai i rieni mewn profedigaeth yn gyfyngedig fel arfer i'r cyfnodau yn union cyn ac ar ôl marwolaeth mae'r ymddiriedolaethau hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau cenedlaethol sy'n arbenigo ym maes profedigaeth, megis Cruse Bereavement Care, y Child Bereavement Trust a SANDS sy'n darparu cyhoeddiadau arbenigol i rieni yn ogystal â chymorth dros gyfnod.

Mae'r rhan fwyaf o ymddiriedolaethau yng Nghymru hefyd erbyn hyn yn cynnal gwasanaeth coffa blynyddol i rieni sydd wedi colli plentyn o unrhyw oedran.

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu safonau ar gyfer gofal lliniarol i blant a phobl ifanc a byddant hefyd yn tanlinellu angen y teulu am gymorth wrth baratoi i golli plentyn.

Alun Ffred Jones: Pa gefnogaeth ariannol a roddir gan Ymddiriedolaethau'r GIG i fudiadau yn y sector gwirfoddol sy'n darparu gwasanaeth profedigaeth i deuluoedd sydd wedi colli plentyn neu sy'n wynebu colli plentyn yn y dyfodol agos? (WAQ49510)

Brian Gibbons: Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog. Mater i'r byrddau iechyd lleol a chyrrff statudol eraill yw penderfynu a ydynt yn dymuno datblygu cytundeb lefel gwasanaeth gyda sefydliadau profedigaeth arbenigol cenedlaethol, fel Cruse Bereavement Care neu gyrff eraill tebyg, ai peidio, a'u cyllido. Mae llawer o gyrff statudol lleol yn cyllido Cruse Bereavement Care a sefydliadau tebyg yn lleol.

Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o ardaloedd Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n darparu gwasanaeth profedigaeth a gefnogir gan y GIG i deuluoedd sydd wedi colli plentyn neu sy'n wynebu colli plentyn yn y dyfodol agos, a pha rai ydynt? (WAQ49511)

Brian Gibbons: Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog. Fodd bynnag, yr ydym yn ymwybodol bod y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn darparu gwasanaethau profedigaeth i deuluoedd sydd wedi colli plentyn, neu sydd ar fin colli plentyn.

Nid yw'n fwriad i'r holl wasanaethau profedigaeth gael eu darparu gan y GIG. Gan fod cymorth ysbytai i rieni mewn profedigaeth yn gyfyngedig fel arfer i'r cyfnodau yn union cyn ac ar ôl marwolaeth mae'r ymddiriedolaethau hefyd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau cenedlaethol sy'n arbenigo ym maes profedigaeth, megis Cruse Bereavement Care, y Child Bereavement Trust a SANDS. Mae'r cyrrff hyn yn darparu cyhoeddiadau arbenigol i rieni yn ogystal â chymorth dros gyfnod.

Rhodri Glyn Thomas: Pa bryd fydd y Gweinidog yn ymgynghori â'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch gweithgor pedair gwlad Gweithrediaeth yr Alban ar reoleiddio gweithwyr cefnogi gofal iechyd o ran anghenion ac amgylchiadau penodol i Gymru? (WAQ49516)

Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trefniadau i gynnwys y cyhoedd a sefydlir yng nghyswllt agweddau Cymreig Papur Gwyn y DU sydd ar fin ei gyhoeddi ar ddyfodol rheoleiddio gofal iechyd? (WAQ49517)

Rhodri Glyn Thomas: Pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda Gweinidogion Iechyd eraill y DU o ran mabwysiadu dull gweithredu cyson ac egwyddorol tuag at gynnwys y cyhoedd ar faterion yn codi o Bapur Gwyn y DU ar ddyfodol rheoleiddio gofal iechyd? (WAQ49518)

Rhodri Glyn Thomas: A yw'r Gweinidog yn bwriadu ymgynghori â'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch Papur Gwyn y DU ar ddyfodol rheoleiddio gofal iechyd, ac os felly, beth fydd ffurf yr ymgynghoriad hwnnw? (WAQ49541)

Brian Gibbons: Cafodd y Papur Gwyn ar reoleiddio proffesiynol ei gyhoeddi ar 21 Chwefror 2007. Mae'n adeiladu ar yr argymhellion yn 'Good Doctors, Safer Patients', ac adolygiad Foster o reoleiddio anfeddygol a bydd yn nodi sut y bydd Llywodraeth y DU yn diwygio ac yn moderneiddio'r system o reoleiddio proffesiynol. Yr ydym eisoes wedi cysylltu'n drylwyr â'r

cynghorau iechyd cymuned ac mae eu sylwadau wedi cael eu bwydo'n ôl i'r Adran Iechyd. Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyd-drefnu'r ymatebion yng Nghymru i adroddiadau Foster a Donaldson. Daeth nifer fawr o ymatebion i law a byddwn yn parhau i ymgynghori'n eang am y materion sy'n berthnasol i Gymru.

Ar yr un pryd, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei hymateb i bumed adroddiad ymchwiliad Shipman, sy'n cyflwyno cynllun gweithredu eang ei gwmpas er mwyn rhoi camau newydd ar waith i ddiogelu cymdeithas. Mae hefyd yn ymdrin ag argymhellion yr ymchwiliadau i ymddygiad Richard Neale, Clifford Ayling, Michael Haslam a William Kerr.

Cyfarfûm ag Andy Burnham, y Gweinidog Gwladol dros Gyflawni a Diwygio, a Mr Andy Kerr, y Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymunedol, Gweithrediaeth yr Alban, ar 22 Ionawr i drafod y Papur Gwyn a phumed adroddiad Shipman. Nid gweithgor o Weithrediaeth yr Alban oedd hwn ond cyfle i bedwar Gweinidog iechyd y DU gwrdd a thrafod diwygio rheoleiddiol. Mae cyfarfodydd o swyddogion y pedair gwlad yn cael eu cynnal hefyd a bydd y rhain yn parhau.

Byddwn hefyd yn cynnal ein hasesiad effaith ein hunain, gan gynnwys ein hadran gyfreithiol, er mwyn archwilio goblygiadau'r Papur Gwyn ac ymchwiliad Shipman i Lywodraeth y Cynulliad a Chymru yn llawn.

Nick Bourne: Yng nghyswllt ei gyfrifoldebau portffolio, sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu ymateb i gasgliadau adroddiad Unicef ar les plant a osododd y DU yn olaf mewn rhestr o un ar hugain o wledydd datblygedig? (WAQ49539)

Brian Gibbons: Byddaf yn ystyried y casgliadau yn yr adroddiad. Ers i'r wybodaeth y seiliwyd yr adroddiad hwn arni gael ei chasglu, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu amryw o bolisiâu a rhaglenni i gryfhau gwasanaethau ac ymdrin â nifer o'r materion y tynnwyd sylw atynt. Nododd Gweithredu'r Hawliau y strategaeth gyffredinol i blant a phobl ifanc, ac mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth, Strategaeth CAMHS, rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf a'r gwaith hyrwyddo iechyd ar draws y portffolios iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yn ceisio gwella iechyd a lles pob plentyn a gwella cyfleoedd bywyd y plant a'r bobl ifanc sy'n fwyaf agored i niwed.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed ar fusnes y Cynulliad yn 2006, ynghyd â chost pob ymweliad? (WAQ49247) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49250) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe'ch cyfeirïaf at yr atebion i WAQ49223 a WAQ49226.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y cartrefi newydd a gyllidwyd gan y grant tai cymdeithasol rhwng 1999 a 2005? (WAQ49407)

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Mae'r ffigurau wedi cael eu cyhoeddi yn Ystadegau Tai Cymru 2005.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog roi manylion nifer y cartrefi a brynwyd drwy'r cynllun cymorth prynu ar gyfer pob blwyddyn rhwng 1999 a 2006? (WAQ49408)

Edwina Hart: Mae'r ffigurau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatgan nifer y cartrefi a brynwyd drwy'r cynllun cymorth prynu rhwng 1999 a 2006? (WAQ49409)

Edwina Hart: Mae'r wybodaeth hon eisoes ar gael i'r cyhoedd. Cyhoeddir y manylion yn y datganiad ystadegol chwarterol 'Right To Buy Sales', sydd ar gael ar wefan ystadegau'r Cynulliad Cenedlaethol: www.wales.gov.uk/statistics.

Mae manylion llawn y cartrefi awdurdod lleol a werthir yn cael eu cyhoeddi hefyd ar wefan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol: <http://www.dataunitwales.gov.uk/>

Christine Gwyther: A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar osod systemau chwistrellu dwr mewn ysgolion a adeiledir o'r newydd yng Nghymru? (WAQ49428)

Edwina Hart: Dywedwyd yn fy natganiad at 7 Tachwedd fod yn rhaid i osod systemau chwistrellu mewn ysgolion newydd ac ysgolion sy'n cael eu hadnewyddu fod yn flaenoriaeth.

Mae systemau chwistrellu yn bwysig i atal marwolaethau a lleihau difrod. Mae gan yr awdurdodau addysg lleol rôl holl bwysig o ystyried eu cyfrifoldeb am gyfleusterau addysgol yn eu hardal, yn cynnwys diogeledd y cyfleusterau hynny a'r trefniadau i'w hamddiffyn.

Yr wyf yn cael trafodaethau'n rheolaidd gyda'r prif swyddogion tân am y mater hwn.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynigion i newid lefelau staffio yng ngorsaf dân Hwlfordd? (WAQ49559)

Edwina Hart: Yn wyneb y llu o bryderon a fynegwyd wrthyf ynglyn â rhoi trefniadau staffio newydd ar waith yng ngorsaf dân Hwlfordd, yr wyf wedi trafod y cynnig a'r pryderon a godwyd gan y cyhoedd a'u cynrychiolwyr gydag Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Nick Bourne: Sawl Swyddfa Bost a gaeodd yn y Canolbarth a'r Gorllewin ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ49560)

Edwina Hart: Mae swyddfeydd post yn fater nad yw wedi cael ei ddatganoli ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu'r wybodaeth hon.

Nick Bourne: Sawl Swyddfa Bost yn y Canolbarth a'r Gorllewin a fanteisiodd ar gronfa datblygu swyddfa'r post yn y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ49561)

Edwina Hart: Dim un. Mae cronfa datblygu swyddfa'r post wedi bod ar gau ers y pedwerydd cylch cymeradwyo, a'r cylch diweddaraf, ym mis Gorffennaf 2004.

Nick Bourne: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yng Nghymru? (WAQ49578)

Edwina Hart: Mae polisi ynni Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod angen i bobl allu cyrchu at wybodaeth sy'n glir, yn addysgiadol ac yn ddiuedd i'w galluogi i weithredu mesurau effeithlonrwydd ynni gartref ac yn y gwaith. Mae porth 'arbed ynni Cymru' Llywodraeth y Cynulliad yn helpu pobl i gyrchu at wybodaeth drwy ddarparu dolenni cyswllt at gyrff sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus sy'n darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth, hyfforddiant a chyllid yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni.

Mae ymgyrch gyfathrebu gychwynnol ynglyn â newid yn yr hinsawdd ar waith, yn canolbwyntio ar y pethau syml y gall pawb ohonom eu gwneud: mae hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yn elfen allweddol o hyn. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys hysbysebion radio lleol, deunydd gwybodaeth gyhoeddus sy'n rhoi cynghorion da a chynnwys newydd ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

Y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yw prif raglen Llywodraeth y Cynulliad i helpu aelwydydd bregus ar incwm isel a allai fod mewn tlodi tanwydd. Ategir y cynllun gan yr ymrwymiad

effeithlonrwydd ynni sy'n rhoi rhwymedigaeth ar gyflenwyr ynni trwyddedig i gyllido mesurau effeithlonrwydd ynni domestig.

Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yng Nghymru yn cynnig digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i'r sector cyhoeddus a busnesau. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn cynnig gwasanaeth tebyg i'r sector domestig yn ogystal â chynghor am faterion trafnidiaeth.

Mae microgynhyrchu yn elfen bwysig o agenda ynni Cymru ac un fantais ychwanegol o gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ficrogynhyrchu yw'r effaith ar ymwybyddiaeth pobl o effeithlonrwydd ynni.

Nick Bourne: Pa effaith y mae gorboblogi mewn carchardai yn ei chael ar bolisiau cyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49583)

Edwina Hart: Nid yw materion yn ymwneud â phoblogaeth y carchardai wedi cael eu datganoli.

Cwestiynau i'r Trefnydd

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r ymweliadau tramor a wnaed ar fusnes y Cynulliad yn 2006, ynghyd â chost pob ymweliad? (WAQ49251) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

Nick Bourne: Faint a wariwyd gan adran y Gweinidog ar gyhoeddusrwydd yn 2006? (WAQ49219) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.*

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Fe'ch cyfeirïaf at yr atebion i WAQ49223 a WAQ49226.

Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith ei pholisiau ar etholaeth Dwyrain Abertawe? (WAQ49438)

Y Trefnydd (Jane Hutt): Fel y Gweinidog dros Blant a'r Gweinidog dros Gydraddoldeb, fy rôl yw gweithio gyda'm cyd-Weinidogion portffolio i sicrhau'r effaith ffafriol fwyaf bosibl yn y meysydd hynny. Mae effaith fy ngwaith yn Nwyrain Abertawe yn cael ei hadlewyrchu felly ym mholisiau a rhaglenni fy nghyd-Weinidogion.